



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai (RhCT) 2022-26



“

Mae'r sialens yn un
fawr, ond ynghyd
â'n partneriaid,
**rydyn ni wedi
ymrwymo i
helpu'r rhai
mwyaf bregus
yn ein cymuned.**

”

Y Cyngorydd Geraint Thomas

Cynnwys

Rhagair	03
Pwrpas y Strategaeth	04
Y Cyd-destun Polisi a Deddfwriaeth	05
Y Cyd-destun Lleol	05
Y Cyd-destun Cenedlaethol	07
Gweledigaeth ac Egwyddorion	14
Trosolwg o Ferthyr Tudful	19
Datganiad Angen	20
Digartrefedd, Cymorth Tai ac Effaith COVID-19	20
Blaenoriaethau Strategol	29
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	34
Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth	36
Asesu'r Effeithiau	38
Gweithredu, Monitro ac Adolygu'r Strategaeth	41
Atodiad A: Cynllun Gweithredu	44
Atodiad B: Tirwedd y Polisiâu Cenedlaethol	58



Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am y cyfnod 2022-2026.

Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar yr ymdrechion a wnaed hyd yma, ynghyd â'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, nid yn unig gan yr Awdurdod Lleol ond gan ei randdeiliaid a'i bartneriaid allweddol hefyd. Edrychwn ymlaen at ddatblygu cartrefi a chynnig atebion i broblemau er mwyn diwallu'r galw am dai ac atal digartrefedd yn awr ac i'r dyfodol.

Mae yna hefyd gydnabyddiaeth glir o'r agwedd 'cynnwys pawb, gwrthod neb' a rhoir llawer o ystyriaeth i sicrhau bod yr atebion a gynigir yn diwallu anghenion ein cymunedau, sy'n aml yn amlochrog ac yn amrywiol eu natur. Gwneir hynny trwy ehangu'r ystod o letyau sydd ar gael fel bod pobl yn wynebu dyfodol mwy disglair a chynaliadwy. A lle na ellir atal digartrefedd, byddwn yn sicrhau ei fod yn fyrhoedlog ac nid yn fater sy'n digwydd dro ar ôl tro.

Rydyn ni'n croesawu'r dull o fynd i'r afael yn chwim â digartrefedd ac mae'r cymorth ariannol a'r canllawiau ychwanegol a geir gan Lywodraeth Cymru yn ein helpu i gyflymu llawer o'n rhaglen ddatblygu. Drwy hynny, gallwn ni greu cartrefi fforddiadwy, carbon-isel a rhagorol yn gyflym ac ar raddfa fydd yn diwallu anghenion yn ein cymuned yn well i'r dyfodol.

Er bod hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer atebion arloesol, dulliau ataliol gwell, ac ymatebion cyflym i ddigartrefedd, rydyn ni hefyd yn cydnabod yr her sylweddol sydd o'n blaenau.

Mae lefelau uchel o amddifadedd eisoes yn bodoli'n lleol ac mae'r cynnydd mewn costau byw a rhenti'r farchnad yn creu pwysau ychwanegol. At hynny, rydyn ni'n wynebu her enfawr yn sgil y cynllun i derfynu'r gorddefnydd o letyau dros dro. Mae'r sialens yn un fawr, ond ynghyd â'n partneriaid, rydyn ni wedi ymrwymo i helpu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymuned.

Y Cyngorydd
Geraint Thomas
Aelod Cabinet dros
Adfywio a Thai



Pwrrpas y Strategaeth

Mae'r strategaeth hon yn nodi blaenoriaethau strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a'i asiantaethau partner ar gyfer atal a lliniaru digartrefedd ynghyd â darparu gwasanaethau cymorth tai dros y 4 blynedd nesaf (2022-26).

Mae'n adnewyddu'r blaenoriaethau cynharach a gafodd eu cynnwys yn Strategaeth flaenorol y Cyngor ar Ddigartrefedd, a Chynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai (GCT) ar gyfer 2021-22. Cafodd datblygiad y blaenoriaethau ei lywio gan asesiad cynhwysfawr o anghenion a oedd yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid o fewn y Cyngor, darparwyr y gwasanaethau cymorth, rhanddeiliaid eraill megis y Gwasanaeth Prawf a'r GIG ac, wrth gwrs, defnyddwyr y gwasanaeth.

Mae'r Grant Cymorth Tai (GCT) yn ymwneud ag ymyrraeth gynnar ac fe'i sefydlwyd i gefnogi gweithgareddau sy'n atal pobl rhag mynd yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu'n helpu pobl a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Mae'r grant yn ychwanegu at, yn ategu ac yn cynorthwyo'r gwasanaeth statudol i sicrhau bod y cynnig cyffredinol a ddarperir gan asiantau lleol yn helpu pobl i gael y cartrefi cywir a'r cymorth cywir i lwyddo. Mae'n gwneud cyfraniad

sylweddol at y gwaith o gyflawni Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd. Dylai gwasanaethau a gefnogir drwy'r GCT ganolbwyntio ar yr unigolyn a mynd i'r afael â phroblemau lluosog y mae pobl fregus yn eu hwynebu'n aml os ydynt yn ddigartref neu'n debygol o ddod yn ddigartref (er enghraifft dyled, cyflogaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a rhywiol a phroblemau iechyd meddwl). Yn y pen draw, dylai'r gwasanaethau leihau'r angen am ymyriadau costus yn y meysydd hyn gan wasanaethau cyhoeddus eraill.

Mae cynllunio strategol yn allweddol i gomisiynu gwasanaethau GCT yn effeithiol. Bydd hyn o gymorth i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal a bod pobl sydd angen gwasanaethau yn cael eu cefnogi'n briodol.

Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth weithredu'r grant. Mae angen strategaeth sengl ar Lywodraeth Cymru sy'n ymgorffori dyletswyddau statudol y Cyngor ar ddigartrefedd a ariennir drwy'r setliad refeniw, yn ogystal â'r gwasanaethau atal anstatudol a ariennir drwy'r GCT. Mae'r strategaeth yn cydnabod y gyd-ddibyniaeth rhwng yr elfennau hyn ac, yn ehangach, â gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n darparu cymorth i bobl fregus.

Y Cyd-destun Lleol

Mae'r strategaeth hon yn ymgorffori gweledigaeth ehangach y Cyngor ac yn cyd-fynd â'i gynlluniau corfforaethol helaethach ynghyd â'r fframwaith polisi a deddfwriaeth cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod y Rhaglen Cymorth Tai yn cefnogi'r Cyngor i gwrdd â'i uchelgeisiau ar gyfer pobl Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Y Cyd-destun Lleol

Mae'r Strategaeth yn cymryd camau hanfodol i gyflawni uchelgeisiau sy'n ganolog i'r ddogfen **Gweledigaeth Economaidd Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 2020-2035** lle nodir y weledigaeth ar gyfer cartrefi modern a lleoedd gwyh. Trwy'r strategaeth hon, bydd y Cyngor yn amrywio'r cyflenwad tai trwy ddarparu cartrefi modern sy'n defnyddio ynni'n effeithlon a bydd yn sicrhau bod gan bawb le diogel i'w alw'n gartref. Bydd y Cyngor yn creu lleoedd ar eu cyfer sy'n wyrdd, yn ddeniadol ac yn meddu ar gymeriad sy'n nodweddiadol o Ferthyr Tudful. Yn ogystal, bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at **Gynllun Creu Lleoedd** y Cyngor sy'n creu cyfres o brosiectau ac ymyriadau penodol fel rhan o gynllun i sicrhau bod canol tref Merthyr yn llwyddo fel prifddinas twristiaeth y Cymoedd a'r Bannau.

Bydd y Cyngor yn creu lleoedd ar eu cyfer sy'n wyrdd, yn ddeniadol ac yn meddu ar gymeriad sy'n nodweddiadol o Ferthyr Tudful.

Mae Cynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai CBSMT 2021-2022 wedi gosod blaenoriaethau ar gyfer y GCT a bydd y strategaeth hon yn adeiladu arnynt trwy:

- weithio tuag at gefnogi darparwyr gwasanaethau fel eu bod yn talu cyflogau sy'n adlewyrchu'r galw, y sgil a'r ymroddiad sydd eu hangen ar Weithwyr Cymorth Tai trwy gynyddu prisiau contract ar gyfer prosiectau sefydledig;
- cynyddu nifer y lletyau â chymorth i'r rhai sydd eu hangen;
- gwella'r cymorth arbenigol a gynigir i garfan gynyddol o ddefnyddwyr gwasanaeth sydd â dau neu fwy o anghenion cymhleth, yn enwedig o ran iechyd meddwl a dibyniaeth ar sylweddau;
- cefnogi staff tai a staff cymorth tai i gyflawni eu rolau trwy amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi.

Mae gwasanaethau Grant Cymorth Tai hefyd yn cyfrannu at nodau Cynllun Gweithredu'r Cyngor mewn perthynas â'i ddogfen Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned. Mae'r cynllun hwnnw'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r tlodi y mae llawer o bobl ym Merthyr Tudful yn ei wynebu. Mae'r cynllun yn gosod dau amcan pwysig:

- mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith diogel a datblygol sy'n sefydlu Merthyr Tudful fel cyrchfan deniadol;
- mae pobl yn cael y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.

“

Mae pobl yn
cael y grym
i fyw'n
annibynnol yn
eu cymunedau

”

Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio'n gyson ar fynd i'r afael â digartrefedd yng nghyd-destun effaith hirdymor polisi Llywodraeth y DU, mewn perthynas â chaledi a chymorth lles, a hefyd meysydd polisi eraill sydd ddim wedi'u datganoli ond sy'n effeithio ar ddigartrefedd megis gwaith yr Heddlu a Charchardai. O dan Ran 2 o **Ddeddf Tai (Cymru) 2014**, mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd newydd a chryfach i atal a lleddfu digartrefedd sydd wedi arwain at gryfhau trefniadau'r bartneriaeth leol.

Mae polisi ac arferion tai a digartrefedd wedi parhau i esblygu yn y cyfnod ers i'r Ddeddf Tai ddod i rym. Ymhlith y datblygiadau diweddaraf, mae'r **Rhaglen Lywodraethu 2021** yn cynnwys ymrwymïadau allweddol i ddeddfu yn unol ag argymhellion allweddol y dogfennau isod, mewn perthynas â digartrefedd a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal;
- diwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym;
- cefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal;
- gwella'r cydweithio ar draws y sectorau tai a gwasanaethau cymdeithasol, gan ddefnyddio cyfrifoldebau rianta corfforaethol.

Mae ymrwymïadau pellach wedi'u nodi yn y **Cytundeb Cydweithio Llafur a Phlaid Cymru** a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gweithredu ar unwaith ac yn radical i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn ail gartrefi a thai anfforddiadwy, gan ddefnyddio'r system gynllunio, y system eiddo a'r system drethu;
- sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i helpu cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy;
- diwygio cyfraith tai a chyflawni argymhellion Grŵp Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Ddigartrefedd i wella'n sylfaenol y gwasanaethau a gynigir i'r digartref;
- cyhoeddi Papur Gwyn a fydd yn cynnwys cynigion ar gyfer hawl i gartref digonol megis rhenti teg a dulliau newydd i wneud cartrefi'n fforddiadwy.

Bydd newidiadau sylweddol pellach yn cael eu cyflwyno ym mis Gorffennaf 2022 wrth i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'i darpariaethau yn [Neddf Rhentu Tai \(Cymru\) 2016](#). Mae newidiadau allweddol, sy'n cryfhau hawliau ac amddiffyniadau tenantiaid, yn cynnwys:

- newid tenantiaethau a thrwyddedau cyfredol, gan gynnwys tenantiaethau byrddaliol sicr, tenantiaethau sicr a thenantiaethau diogel gyda chontractau meddiannaeth diogel (a gynigir yn gyffredinol gan landlordiaid cymunedol – awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) a chontractau meddiannaeth safonol (a gynigir yn gyffredinol gan landlordiaid preifat);
- mwy o reidrwydd ar landlordiaid i egluro priod ddyletswyddau'r landlord a deiliad y contract (y tenant);
- y cyfnod hysbysu byrraf ar gyfer terfynu contract lle nad oes unrhyw fai i 6 mis, a gofyniad y dylai o leiaf 6 mis fynd heibio ers dechrau contract cyn rhoi unrhyw hysbysiad o'r fath;
- mwy o amddiffyniad i ddeiliaid contractau rhag cymalau terfynu fel na all landlordiaid eu rhoi heb fodloni amodau penodol;
- gofyniad fod pob eiddo ar rent yn ffit i bobl fyw ynddo a bod landlordiaid yn cadw strwythur a thu allan yr eiddo mewn cyflwr da;
- diogelu tenantiaid sy'n ddarostyngedig i gyd-gontract pan fydd un deiliad contract yn gadael a'r gweddill yn parhau yn yr eiddo;
- gwell hawliau olyniaeth contract i rai grwpiau, gan gynnwys rhai gofalwyr.

Bydd gan y newidiadau hyn oblygiadau amlwg i awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sydd â dyletswyddau i atal a lleddfu digartrefedd, o ran sicrhau bod y tenantiaid neu'r deiliaid contract presennol yn cael eu hamddiffyn yn well rhag y risg o ddod yn ddigartref. Fodd bynnag, mae'n bosib y gallant effeithio ar argaeledd eiddo addas a landlordiaid preifat sy'n fodlon rhentu o fewn yr ardal.

Cynhwysir rhestr lawn o ddatblygiadau polisi cenedlaethol sydd wedi dylanwadu ar y Strategaeth hon yn [Atodiad B](#).

Mae'r egwyddor arweiniol yn parhau i fod yn un o atal digartrefedd, ond lle nad yw hyn yn bosibl, dylid sicrhau ei fod yn beth byrhoedlog sydd ddim yn digwydd dro ar ôl tro. Ceir ymrwymiad o'r newydd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym. Bydd deall yr hyn sy'n gweithio, yr hyn sy'n addawol, a'r hyn sydd ddim yn effeithiol, yn hanfodol i Lywodraeth Cymru wrth iddi gyflawni ei nodau polisi.

Yn eu tro, mae sawl egwyddor allweddol yn sail i ddull Llywodraeth Cymru o atal digartrefedd, a dylai'r rhain gael eu hymgorffori ar draws y gwasanaethau cyhoeddus a'r gwasanaethau a gomisiynir. Dyma restr ohonynt:

- yr ataliadau cynharaf sydd fwyaf effeithiol a chost effeithiol a hwy ddylai gael eu dewis fel yr ymyriadau cyntaf bob tro;
- mae taclo ac atal digartrefedd yn fater i'r gwasanaethau cyhoeddus – yn hytrach nag yn 'fater tai';
- dylai pob gwasanaeth roi'r unigolyn yn y canol a chydweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar drawma;
- dylai'r dyletswyddau yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 weithredu fel yr amddiffyniad olaf – nid y cyntaf – a dylai pob gwasanaeth weithio i ysbryd ac nid llythyren y gyfraith yn unig;
- dylai polisïau, darpariaethau gwasanaeth ac arferion gael eu llywio a'u llunio mewn modd cydgynhyrchiol a chan y rhai sydd â phrofiad personol.

“

Bydd deall yr hyn sy'n gweithio, yr hyn sy'n addawol, a'r hyn sydd ddim yn effeithiol, yn **hanfodol i Lywodraeth Cymru wrth iddi gyflawni ei nodau polisi.**

”

Mae ymagwedd aml-asiantaeth tuag at ddigartrefedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn gofyn am gyfraniad gan wasanaethau cydnaws eraill. Mae'r meysydd gwasanaeth hyn yn destun deddfwriaeth a pholisi penodol, ac maent i gyd yn cyfuno'n fras ag egwyddorion sy'n ymwneud ag atal/ymyrryd yn gynnar, cynnig cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, hybu annibyniaeth a darparu atebion cynaliadwy. Nodwyd isod y meysydd pwysig a pherthnasol o ran deddfwriaeth a pholisi.

Yr Agenda Datgarboneiddio

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i'r sector cyhoeddus fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030 mewn ymateb i'r newid hinsawdd. Mae'r rhaglen yn amlinellu ymrwymadau'r Llywodraeth i ddatgarboneiddio yn gyffredinol a'r ymrwymadau cysylltiedig penodol mewn perthynas â thai a digartrefedd.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu;
- cefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol.

Bydd pob un o'r camau gweithredu hyn yn darparu cyd-destun esblygol ar gyfer cyflawni'r Strategaeth hon, yn enwedig mewn perthynas â chefnogi'r twf yn nifer y tai sy'n ofynnol ym Merthyr Tudful i fynd i'r afael â'r diffyg tai fforddiadwy, ond bydd hefyd yn sicrhau ein bod yn cyd-fynd â'r nodau datgarboneiddio ehangach i Gymru. Mae cynllun Llywodraeth Cymru, 'Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-2025)', yn nodi'r uchelgais y bydd holl gartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru yn cael eu hadeiladu i fod yn garbon sero net erbyn 2025, ac y bydd safonau sero net yn cael eu mabwysiadu gan ddatblygwyr pob cartref newydd beth bynnag fo'u deiliadaeth erbyn y dyddiad hwnnw.

Wrth i nwyon tŷ gwydr gynyddu, mae Merthyr Tudful wedi profi'r holl symptomau allweddol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd a grëwyd gan ddyn, gan gynnwys patrymau tywydd anghyson, llygredd aer, tywydd poeth a newidiadau mewn bioamrywiaeth. Daeth costau economaidd a chymdeithasol cysylltiedig yn sgil hynny hefyd, wrth i fusnesau a thrigolion gael trafferth gyda phroblemau fel difrod llifogydd a damweiniau'n tarfu ar eu bywydau bob dydd. Bydd Cyngor Merthyr Tudful yn cefnogi'r uchelgais hwn trwy gynnal nifer o fentrau a phrosiectau datgarboneiddio a fydd yn lleihau allyriadau carbon ei weithrediadau a'i effeithiau ar newid hinsawdd. **Rydyn ni eisoes wedi cychwyn ar y daith honno.** Mae llawer o fentrau datgarboneiddio eisoes ar y gweill megis gweithredu mesurau effeithlonrwydd ynni ar raddfa fawr mewn adeiladau. Rydyn ni hefyd yn gweithio gydag Arbenigwr Ynni i'n helpu i baratoi cynllun a map ffordd ar gyfer y Cyngor fel y gallwn chwarae ein rhan ni.



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ceisio cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru er mwyn sicrhau bod yr anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwythau. Mae angen i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau, a chyda'i gilydd, a cheisio atal problemau a chymryd agwedd fwy cydgysylltiedig.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth i wella'r deilliannau llesiant ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, ac ar gyfer gofalfwyr y mae angen cymorth arnynt. Caiff hynny ei gyflawni gan awdurdodau cyhoeddus yn darparu cefnogaeth well trwy gydgyssylltiad a gwaith partneriaeth. Mae'r Ddeddf yn cydnabod yr angen am fwy o wasanaethau ymyrraeth gynnar a chymorth dwys cynhwysfawr. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal a gwella llesiant pobl sydd ei angen mewn meysydd fel addysg, hyfforddiant a hamdden, llesiant cymdeithasol ac economaidd a llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol.

Adolygiad Llywodraeth Cymru o Dai Fforddiadwy 2019

Comisiynwyd yr adolygiad hwn gyda'r nod o archwilio a ellir gwneud mwy i gynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy yng Nghymru a chynnig argymhellion ar gyfer newid, a bydd yn llywio Polisi Tai Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd i ddod. Ceir nifer o themâu gan gynnwys fforddiadwyedd, yr angen am fwy o sicrwydd drwy symud tuag at wneud penderfyniadau tymor hwy ar faterion megis rhent a grant, yr angen i ysgogi cydweithio rhwng cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol, a'r angen am system fydd yn galluogi landlordiaid cymdeithasol i ddefnyddio mwy o hyblygrwydd.

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf hon yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i gamdriniaeth a thrais trwy wella trefniadau i hybu ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a rhyw a'u hatal, gan amddiffyn a chefnogi dioddefwyr. Mae dioddefwyr camdriniaeth a thrais o'r fath yn ffurfio grŵp arwyddocaol o gleientiaid ar gyfer gwasanaethau tai. Mae'r Ddeddf yn pwysleisio'r ffocws ar ataliaeth a dulliau partneriaeth o weithio mewn perthynas â VAWDASV.

Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau: 2019 i 2022 (Cymru)

Mae'r Cynllun hwn yn nodi blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru o ran polisi a gweithred ac mae wedi'i adolygu i ystyried lle mae angen ei ddiweddarau yng ngoleuni COVID-19. Mae'r adolygiad yn nodi'r meysydd blaenoriaeth canlynol: ymateb i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd ac yn gyffredin ym maes camddefnyddio sylweddau, sicrhau gwaith partneriaeth cryf gyda gwasanaethau tai a digartrefedd i gefnogi ymhellach y rheini â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, gwella mynediad at wasanaethau, a sicrhau bod pobl yn cael mynediad at y cymorth a'r driniaeth pan fydd eu hangen arnynt.

Atal Digartrefedd ymhlith yr Ifanc

Mae Llywodraeth Cymru, yn ei Rhaglen Lywodraethu, yn amlinellu ymrwymadau allweddol i ddeddfu yn unol ag argymhellion allweddol y dogfennau 'Don't Let Me Fall Through the Cracks', 'Atal Digartrefedd Pobl Ifanc' a 'Care Leavers Accommodation and Support Framework for Wales' mewn perthynas â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a digartrefedd. Mae Strategaeth ein Rhaglen Cymorth Tai yn rhoi ystyriaeth i'r argymhellion allweddol sy'n cynnwys gwella'r cydweithio ar draws y gwasanaethau tai a chymdeithasol, a chryfhau'r cyfrifoldebau o ran rianta corfforaethol.



Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Ddeddf hon yn cwmpasu'r DU gyfan ac yn darparu amddiffyniad i bobl y gwahaniaethir yn eu herbyn oherwydd y synhwyrir eu bod yn meddu ar nodwedd warchodedig neu eu bod yn gysylltiedig â rhywun o'r fath. Mae amddiffyniad yn berthnasol i'r modd y darperir gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus. Yn ogystal, cyflwynwyd Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol newydd yng Nghymru yn 2020 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried y modd y gallai'u penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol, wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch blaenoriaethu a phennu amcanion.

Gweledigaeth ac Egwyddorion

Mae ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau sy'n atal digartrefedd ac yn darparu cymorth tai, yn cyd-fynd yn uniongyrchol â chynlluniau hirdymor y Cyngor ar gyfer y Sir ac fe'u nodwyd yn ei Weledigaeth Economaidd 2020-2035. Er mai Merthyr Tudful yw'r Fwrdeistref Sirol leiaf yng Nghymru, mae ganddi botensial mawr ac mae'r weledigaeth yn nodi uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer yr economi leol ac yn gweithio gyda phartneriaid, cymunedau, trigolion a busnesau i greu economi sy'n gadarn ac yn rhoi cyfle i bawb ffynnu.



Dyma amlinelliad o'r weledigaeth gorfforaethol:

“

**creu amgylchedd sy'n
cefnogi twf ein busnesau ac
yn denu busnesau newydd
i fuddsoddi; arfogi ein holl
bobl â'r sgiliau a'r wybodaeth
i gael swydd neu ddechrau
busnes; cefnogi ein sefydliadau
cymunedol i ffynnu; a denu
mwy o ymwelwyr i fwynhau ein
Bwrdeistref nodedig.**

”

Yr Uchelgais Craidd



Mae'r strategaeth 4 blynedd yn ceisio cyfrannu at newid cadarnhaol a fydd yn amlochrog ac yn unol â'n huchelgeisiau cyffredinol. Bydd y Sector Cymorth Tai yn fwy sefydlog a deniadol i weithwyr gan arwain at weithlu heini a throsiant staff isel. Bydd cyflogau'n adlewyrchu'r sgiliau a'r ymroddiad sydd eu hangen i weithio yn y sector a bydd y tâl yn apelio at y rhai sy'n ystyried gyrfa mewn cymorth tai.

Mae Strategaeth ein Rhaglen Cymorth Tai yn seiliedig ar weledigaeth gyflenwol sy'n cyd-fynd â'r amcan cenedlaethol a nodir yn y Canllawiau GCT sef 'Cymru lle nad oes neb yn ddigartref, a lle mae gan bawb gartref diogel y gallant ffynnu ynddo... a byw bywyd bodlon, bywiog ac annibynnol'. **Dyma'r weledigaeth:**

“

Mae partneriaid yn y sector statudol, y trydydd sector a'r sector preifat yn cydweithio'n effeithiol i wneud yn siŵr fod pobl ym Merthyr Tudful yn gallu cael gafael ar dai addas ac yn gallu aros yn eu cymunedau lleol. Mae'r cymorth cywir ar gael o fewn cymunedau lleol, i atal y rhai sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref rhag colli'u cartrefi. **Rydyn ni'n ymdrechu i sicrhau llety priodol cyn gynted â phosibl ar gyfer y rhai sydd wedi dod yn ddigartref, ynghyd â'r math cywir o gefnogaeth bersonol, er mwyn eu helpu tuag at ddyfodol diogel a chynyddu'u llesiant hyd yr eithaf. Ym Merthyr Tudful, mae digartrefedd yn cael ei atal neu mae'n beth prin a byrhoedlog sydd ddim yn digwydd dro ar ôl tro.**

”

Bydd staff ar draws y gwasanaethau yn meddu ar wybodaeth ac offer sylfaenol i gefnogi pobl fel y gallant oresgyn eu rhwystrau a meithrin y gallu a'r gwydnwch i ymdopi ag argyfyngau'r dyfodol. Bydd digon o arbenigedd ymhlith y darparwyr cymorth tai ym Merthyr Tudful fel y bydd defnyddwyr y gwasanaeth yn gallu cael mynediad at y cymorth sy'n iawn iddynt, a hynny cyn gynted â phosibl er mwyn atal digartrefedd. Os na ellir osgoi digartrefedd, bydd pobl yn cael cynnig llety addas yn gyflym ac yn cael eu cefnogi i fyw yno'n annibynnol.

Bydd y bobl fwyaf bregus sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, yn cael mynediad at lety priodol gyda chymorth dwys. Bydd hyn yn diwallu eu hanghenion trwy fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd eu hymddygiadau a'u hamgylchiadau, gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar drawma ac yn rhwystro digartrefedd cylchol.

Er mwyn cydnabod bod tueddiadau ac anghenion cymorth y boblogaeth yn newid yn chwim, bydd y GCT yn gallu ymateb yn gyflym iddynt. Bydd y gwasanaethau'n hyblyg eu natur ac yn gallu addasu, ehangu a chrebachu mewn ymateb i'r galw, gan ddarparu cymorth priodol sy'n ataliol ei natur yn bennaf, ac yn cynnig gwerth am arian wrth leihau'r defnydd o wasanaethau drutach ar y rheng flaen.

“
Bydd y
gwasanaethau'n
hyblyg eu natur
ac yn gallu addasu,
ehangu a chrebachu
mewn ymateb i'r galw.
”

Trosolwg o Ferthyr Tudful

Yn ei grynsyth, disgwylir i boblogaeth Merthyr Tudful dyfu'n gymedrol rhwng nawr a 2040, yn bennaf oherwydd mudo, ond disgwylir i gyfran y rhai dros 65 ac 80 oed dyfu'n sylweddol.

Mae gennym rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae mesurau cyni a diwygiadau lles wedi effeithio ar Ferthyr Tudful yn fwy negyddol na llawer o ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae crynodiad uwch o amddifadedd yng ngogledd yr Awdurdod Lleol, yn enwedig yn yr ardaloedd o amgylch Merthyr Tudful megis Penydarren, Gurnos a Gelli Deg yng Nghyfarthfa.

Er bod lefelau amddifadedd yn is yn ne'r Awdurdod Lleol, mae crynodiad sylweddol o amddifadedd yn Ynysowen sy'n un o ddwy ardal ag 'amddifadedd dwfn' ym Merthyr Tudful. Mae Penydarren, Ynysowen a Gurnos wedi'u nodi'n benodol fel ardaloedd â lefelau sylweddol o amddifadedd tai.



Datganiad Angen

Mae'r **Datganiad Angen** ar gael fel dogfen ar wahân ac mae'n crynhoi canfyddiadau'r **Asesiad o Anghenion**, sydd hefyd ar gael ar wahân. Mae'n nodi'r materion allweddol yr ymdrinnir â hwy yn Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai ynghyd â dyletswyddau statudol Merthyr Tudful i atal a lliniaru digartrefedd, a hynny o fewn cyd-destun yr amcanion strategol ehangach. Rhoddir crynodeb o'r materion allweddol isod.

Digartrefedd, Cymorth Tai ac Effaith COVID-19

Roedd y newidiadau a wnaed i ddeddfwriaeth ddigartrefedd o ganlyniad i bandemig COVID-19 wedi dileu'r 'angen blaenoriaethol' ac wedi mabwysiadu'r dull 'pawb mewn'. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o ddigartrefedd oddi ar fis Mawrth 2020.

Mae deddfwriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru a grynhoir yn yr Asesiad o Anghenion yn nodi'n glir pa mor bwysig yw atal digartrefedd lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ym Merthyr Tudful lle ceir heriau unigryw yn sgil y lefelau uchel o amddifadedd a grybwyllwyd eisoes, ac o ran cwantwm a chymhlethdod anghymesur yr anghenion a gyflwynir gan unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau'r rheng flaen. Fe wynebier heriau hefyd wrth ystyried safleoedd a thiroedd ar gyfer datblygu ac adeiladu cartrefi newydd.

Mae'r Asesiad o Anghenion yn dangos bod y galw am lety yn sylweddol uwch na'r cyflenwad sydd ar gael trwy berchentyaeth, rhentu preifat a thai cymdeithasol.

Mae'r Tîm Atebion Tai yn anfoddog i ddibynnu'n drwm ar letyau gwely a brecwast a thai llety lleol, i ddarparu lletyau dros dro.

Mae Gwasanaethau Digartrefedd a Grant Cymorth Tai (GCT) yn canolbwyntio ar ataliad, ond mae'r ymchwydd diweddar mewn angen a ddisgrifiwyd gan randdeiliaid, yn golygu y bu'n rhaid iddynt ganolbwyntio'r cymorth ar reoli argyfyngau. Nododd y rhanddeiliaid fod angen ail-ganolbwyntio ymdrechion ar ataliad, gan gynnig cymorth yn gynt i atal digartrefedd.

Problemau Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd

Merthyr Tudful, a Chwm Taf Morgannwg yn ehangach, sydd â'r cyfraddau uchaf o salwch meddwl a llesiant gwael yng Nghymru. Yn aml, fe roddir problemau tai fel rheswm dros dderbyn neu aildderbyn rhywun i ofal iechyd meddwl fel claf mewnol. Mae pobl â salwch meddwl yn llawer mwy tebygol o fyw mewn llety ar rent ac yn aml, mae eu hafiechyd meddwl yn cael ei roi fel prif reswm dros fethiant eu tenantiaeth.

Iechyd meddwl oedd yr ail 'angen sylfaenol' uchaf a dyma oedd hefyd â'r nifer uchaf o 'anghenion eilaidd' wrth gyfeirio at wasanaethau GCT. Disgwylir cynnydd pellach o flwyddyn i flwyddyn ar ôl COVID-19.

Mae cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn heriol i'r rhai ag anghenion uchel a'r rhai sydd ddim yn bodloni'r meini prawf i fod yn gymwys am wasanaethau iechyd meddwl arbenigol.

Ymhlith y bobl sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau GCT, mae'n gyffredin iddynt gamddefnyddio sylweddau yn ogystal â meddu ar broblemau iechyd meddwl. Mae adborth y rhanddeiliaid yn awgrymu bod camddefnyddio sylweddau yn dod i'r amlwg fel angen yn nifer sylweddol o atgyfeiriadau GCT unwaith i'r cymorth ddechrau.

“
**Iechyd meddwl
oedd yr ail ‘angen
sylfaenol’ uchaf
a dyma oedd hefyd
â'r nifer uchaf o
‘anghenion eilaidd’
wrth gyfeirio at
wasanaethau GCT.**
”

Bellach, mae gwasanaeth rhanbarthol arbenigol newydd yn ei le. Mae'n rhy gynnar i werthuso'r gwasanaeth hwn yn llawn; fodd bynnag, mae yna arwyddion cynnar fod y cydweithio rhwng Tai ac Iechyd yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol.

Pobl Ifanc

Mae pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r rhai sy'n rhoi gwybod i gynghorau eu bod yn ddigartref; yn aml, maent yn gadael cartref oherwydd chwalfa deuluol a dyma un o'r grwpiau mwyaf niferus sy'n cael eu cyfeirio am gymorth a ariennir gan GCT.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob cyngor archwilio'u hymateb fel rhiant corfforaethol i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, a'u hanghenion llety i'r dyfodol.

O hyn allan, bydd ein cydweithio a'n comisiynu yn adlewyrchu dull mwy cydgysylltiedig o rianta corfforaethol wrth geisio atal digartrefedd.

Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Mae nifer y menywod sy'n ddigartref oherwydd trais yn y cartref yn cyfrif am 8% ar gyfartaledd o'r rhai a ddaw i'n sylw o dan Adran 66 ac Adran 73 bob blwyddyn.

Mae adborth gan randdeiliaid yn dangos bod menywod sy'n cael eu cyfeirio at lochesi yn meddu ar anghenion mwy cymhleth ac felly'n cyflwyno lefelau uwch o risg.

Mae angen datblygu gwasanaethau sy'n ymateb i gynnydd yn nifer y menywod sy'n cyflwyno heriau mwy cymhleth megis y rhai sy'n camddefnyddio sylweddau ac yn dioddef salwch meddwl yr un pryd.

Mae'r Strategaeth a Chynllun Cyflawni Rhanbarthol yn cynnwys nodau allweddol sydd angen eu hystyried wrth ddatblygu gwasanaethau.

Pobl Hŷn

Bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd a fydd yn cael trafferth i ofalu amdanynt eu hunain yn ddiogel neu i gyflawni tasgau domestig arferol, yn cynyddu 34% ym Merthyr erbyn 2040. Yn aml, y diffyg gallu neu'r canfyddiad o ddifffyg gallu i wneud y tasgau hyn sy'n ysgogi cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol.

At hynny, bydd cynnydd o 61% yn nifer y bobl dros 65 oed sydd â dementia ym Merthyr erbyn 2040 yn ogystal â chynnydd o 46% mewn cwmpadau ymhlith y rhai dros 75 oed yn yr un cyfnod. Mae un o bob tri yn gadael ei gartref ei hun ac yn symud i ofal hirdymor ar ôl cwmpo.

Byddwn yn parhau i roi ystyriaeth ddyledus i anghenion tai a llesiant pobl hŷn yn y dyfodol. Bydd angen ystyried y modd y gellir gwella'r cymorth a roir i bobl hŷn ym Merthyr fel eu bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel yn eu cartrefi am gyfnod hwy. Gwneir hynny trwy ddarparu mynediad da i wybodaeth, cyngor, addasiadau, technoleg gynorthwyol, gwasanaeth ail-alluogi a chymorth sy'n gysylltiedig â thai. Hefyd, wrth i bobl heneiddio, bydd angen iddynt ystyried llawer mwy o opsiynau ar gyfer llety hyblyg. Bydd y Rhaglen Cymorth Tai yn parhau i chwarae rhan annatod wrth ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn.



Mae pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r rhai sy'n rhoi gwybod i gynghorau eu bod yn ddigartref; yn aml, maent yn gadael cartref oherwydd chwalfa deuluol a dyma un o'r grwpiau mwyaf niferus sy'n cael eu cyfeirio am gymorth a ariennir gan GCT.

Llety

Mae gan Ferthyr Tudful gyfran sylweddol uwch o stoc tai hŷn nag mewn mannau eraill yng Nghymru, sy'n amlygu ei hun mewn cyfradd uchel o anffitrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion tai teras. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni cartrefi di-garbon/carbon isel, trwy ddatblygiadau newydd o dan y Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru newydd (WDQR 2021).

Mae angen sylweddol am eiddo ag un a dwy ystafell wely yn y Fwrdeistref. Mae'r angen mwyaf am y rhain yn wardiau'r Dref, Dowlais, Gurnos, Cyfarthfa a Phenydarren.

Daw 40 y cant o'r galw am letyau un ystafell wely gan ymgeiswyr o dan 35 oed. Mae hyn yn rhoi pwysau arnom i ddarparu lletyau un ystafell wely, gan fod diffyg sylweddol ohonynt yn y Fwrdeistref.

Llety Dros Dro

Mae newidiadau a wnaed i ddeddfwriaeth ddigartrefedd o ganlyniad i bandemig COVID-19, yn gosod dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu llety dros dro i bob unigolyn/aelwyd gan ddiystyru'r prawf blaenorol sef 'angen blaenoriaethol'.

Oherwydd diffyg llety fforddiadwy i bobl sengl a nifer cyfyngedig o Letyau â Chymorth yn y Fwrdeistref, mae 'lletyau camu ymlaen' yn gyfyngedig iawn ac nid oes digon o stoc LCC ar gael i fodloni'r galw presennol. Rhagwelir y bydd llawer o bobl yn aros mewn lletyau Gwely a Brecwast a lletyau Dros Dro eraill am gryn amser hyd nes y bydd lletyau mwy addas a pharhaol ar gael.

Y Sector Rhentu Preifat

Mae defnyddio llety a ddarperir gan landlordiaid preifat wedi bod yn rhan hanfodol o'r ymdrech i atal digartrefedd neu i symud ymlaen o lety dros dro.

Fodd bynnag, mae cyfraddau statudol y Lwfans Tai Lleol yn sylweddol is na'r hyn sydd ei angen ar bobl sengl a theuluoedd sydd ar fudd-daliadau neu incwm isel, ac yn aml ni allant fforddio talu'r ychwanegiad.

Mae llai o landlordiaid preifat yn fodlon derbyn pobl drwy'r Cyngor ac maent yn dueddol o ffafrio pobl sy'n defnyddio incwm preifat yn hytrach na'r Lwfans Tai Lleol.

Tai yn Gyntaf ac Ailgartrefu Cyflym

Mae'r Cyngor wedi comisiynu ychydig o 'unedau ailgartrefu cyflym' drwy'r model Tai yn Gyntaf. Bydd y comisiwn hwn yn cael ei adolygu er mwyn inni ddysgu'r modd y gallwn ni gynyddu ein hymdrechion yn y maes 'ailgartrefu cyflym' a 'thai yn gyntaf' wrth symud ymlaen.

Adeiladu Cartrefi Newydd

Ar hyn o bryd, mae yna argyfwng tai fforddiadwy ym Merthyr ac mae'n effeithio ar bob rhan o'r system - o argaeledd lletyau dros dro a lletyau â chymorth i ba mor gyflym y gall pobl symud ymlaen i opsiynau mwy parhaol.

Rydyn ni wedi gosod targed uchelgeisiol i ddarparu isafswm o 160 o unedau llety trwy ein Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol, a bydd 104 ohonynt yn lletyau un ystafell wely – ar hyn o bryd, mae'r unedau hyn yn cynnwys datblygiadau 'byw ar y safle' a rhai nad ydynt eto wedi dechrau ond disgwylir iddynt gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2024.

Bydd angen inni hefyd ystyried ein cynlluniau ar gyfer datblygu mwy o dai traws-ddaliadaeth a ddynodir yn ôl oedran, ynghyd â lletyau gofal ychwanegol a gwelyau nyrsio, gan fod ein darpariaeth bresennol gryn dipyn yn llai na'r amcanion a gawsom ynghylch anghenion y dyfodol.

Gwasanaethau Cymorth a Ariennir gan GCT

Ymhlith y rhai sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref neu'n cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth a ariennir gan GCT, mae dau grŵp allweddol yn sefyll allan: pobl sengl 25 oed a hŷn a chyn-droseddwy'r sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar. O fewn y grwpiau hynny, ceir ystod eang o anghenion, a chyn y newidiadau a wnaed i ddeddfwriaeth ddigartrefedd yn sgil pandemig COVID-19, mae'n debyg na fyddai yna ddyletswydd statudol i gynnig llety dros dro i lawer o'r rhain. Fodd bynnag, mae gan nifer o'r rhai hynny amrywiaeth o anghenion cymhleth sy'n ymwneud â chyflwr eu hiechyd meddwl, eu camddefnydd o sylweddau, a'r ddau yn cyd-ddigwydd.

Mae lletyau â chymorth a gwasanaethau cymorth a ddarperir fel y bo'r angen, wedi gweld cynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion ac yn lefel risg y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio oddi ar fis Mawrth 2020.

Dyma'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r broses asesu anghenion:

- O hyn allan, bydd gofyn i gymorth roi mwy o ffocws ar atal digartrefedd ac ymyrraeth gynnar.
- Mae angen gwella'r opsiynau cymorth ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ac mae angen system ehangach i gydweithio ar broblemau sy'n cyd-ddigwydd.
- Mae angen gwella'r opsiynau cymorth ar gyfer y digartref sengl a phobl ifanc – yn enwedig y rhai sydd â 'phrofiad o ofal'.
- Mae angen teilwra mwy o gymorth tai ar gyfer y rhai sy'n gadael carchar.
- Mae angen cynyddu mynediad i'r Sector Rhentu Preifat.
- Mae angen i'r cynlluniau ar gyfer datblygu opsiynau newydd ar gyfer tai dros dro a pharhaol gyd-daro â'r galw presennol a galw disgwylidig y dyfodol.
- Mae angen sicrhau bod systemau GCT yn galluogi gwasanaethau hyblyg, ymatebol ac arloesol.
- Lle mae nifer o asiantaethau'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth, mae trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn hanfodol i sicrhau'r gofal a'r cymorth mwyaf posibl sydd eu hangen ar unigolion. Mae'n amlwg felly, y dylid gwella'r broses o gasglu data ar draws asiantaethau, a'i chysoni â fframweithiau cenedlaethol y cytunwyd arnynt er mwyn gwella'r modd y caiff cynlluniau ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol eu llywio.

Deilliannau

Mae darparwyr GCT yn defnyddio Fframwaith Deilliannau Llywodraeth Cymru.

Cododd rhanddeiliaid a darparwyr bryderon nad yw'r deilliannau y maent yn eu cofnodi ar hyn o bryd yn adlewyrchu effaith eu cymorth yn llawn, yn enwedig mewn perthynas â phobl ag anghenion dwys a/neu gymhleth. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru ar gyflwyno Fframwaith Deilliannau Sengl – gwaith sydd wedi'i ohirio oherwydd y pandemig.

Mae deall yr 'anghenion nas diwallwyd' yn heriol o ystyried y cyfyngiadau i ddeall y deilliannau a ddisgrifir uchod.

Prin oedd y wybodaeth ar gyfer 2020/21 am yr anghenion nas diwallwyd, a dim ond un atgyfeiriad i lety â chymorth na chafodd ei dderbyn. Fodd bynnag, ar ôl mapio anghenion yr unigolion a leolir mewn llety dros dro ac er mwyn cynnig cyfleoedd cadarnhaol a phriodol iddynt symud ymlaen, mae angen ystod ehangach o letyau i ddiwallu'r angen hwnnw, gan gynnwys mwy o unedau ar ffurf llety â chymorth a chartrefi fforddiadwy ag un ystafell wely.

Sylwadau'r Rhanddeiliaid ar Ddyfodol y Sector Cymorth Tai

Mae ein rhanddeiliaid am weld:

- **Mwy o ddilyniant** o gontractau tymor hwy yn hytrach na chytundebau a ariennir blwyddyn ar ôl blwyddyn. Maent hefyd am weld llai o fiwrocratiaeth ddiangen wrth fonitro gweithgarwch sy'n cymryd llawer o amser ac sy'n lleihau cyfleoedd ar gyfer arloesedd a hyblygrwydd.
- **Mwy o ataliaeth** – ar hyn o bryd, maent yn teimlo eu bod yn rheoli argyfwng y rhan fwyaf o'r amser. Byddai datblygu siop-un-stop ar gyfer cyngor a chymorth cynnar o gymorth yn hyn o beth. Mae darparwyr yn gweld mwy o bobl sydd wedi colli'u swyddi a'u cartrefi yn ddiweddar.
- **Gweithio'n fwy cadarn ar draws y sectorau** mewn perthynas â phobl a chanddynt heriau cymhleth sy'n cyd-ddigwydd.
- **Mwy o lety i bobl sy'n gadael carchar.** Nid llety dros dro yw'r amgylchedd iawn bob tro i atal aildroseddu, hyd yn oed gyda chymorth a gynigir gan GCT fel y bo'r angen.
- **Llety mwy priodol ar gyfer symud ymlaen** o lety dros dro a llety â chymorth.
- **Mwy o lety i bobl sengl**
- **Rhannu data a gwybodaeth yn well** rhwng pob rhan o'r system.

Gweithio Amlasiantaethol

Mae'r Asesiad Anghenion yn cadarnhau bod trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn hanfodol i sicrhau'r cymorth gorau posibl i unigolion.

Mae yna ddigon o dystiolaeth i ddangos bod pobl ddigartref wedi'i chael hi'n heriol ers tro i gyrchu gwasanaethau'r GIG megis cymorth ag iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Gyda lluo o gyn-droseddwr yn cael eu cyfeirio at wasanaethau tai a chymorth, mae angen gweithio mewn partneriaeth agosach â'r Gwasanaeth Prawf.

Roedd asiantaethau'n aml yn canmol y cymorth a roddai'r Cyngor i bobl ddigartref. Fodd bynnag, teimlai'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Darparwyr Cymorth fod angen mwy o waith partneriaeth rhwng y GIG, y Gwasanaeth Prawf, Gofal Cymdeithasol ac Addysg, a bod angen

adnewyddu'r ffocws ar wella ymatebion cydgysylltiedig, amlasiantaethol ar gyfer unigolion ac yn strategol ar draws y Fwrdeistref a'r Rhanbarth.

Roedd awydd cryf hefyd i wella maint ac ansawdd y wybodaeth a rennir rhwng asiantaethau gan leihau'r angen i bobl orfod ailadrodd eu stori sawl gwaith.

Mae angen gwella'r broses o gasglu data ar draws asiantaethau a'i gysoni â fframweithiau cenedlaethol y cytunwyd arnynt er mwyn gwella'r modd y caiff cynlluniau ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol eu llywio. Mae canfyddiadau'r Asesiad o Anghenion yn rhoi negeseuon clir inni ynghylch dyfodol ein Strategaeth Dai a'n Gwasanaethau GCT. Mae'r blaenoriaethau strategol canlynol yn adlewyrchu'r negeseuon hyn ac yn dangos y modd y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni ein gweledigaeth gyfunol.

“

Roedd awydd cryf hefyd i wella maint ac ansawdd y wybodaeth a rennir rhwng asiantaethau gan leihau'r angen i bobl orfod ailadrodd eu stori sawl gwaith.

”

“

Mae ein
blaenoriaethau hefyd
yn ystyried **y cynnydd**
a wnaed drwy ein
Cynllun Cyflawni'r
GCT diweddaraf yn
2021/22.

”

Blaenoriaethau Strategol

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'r Rhaglen Cymorth Tai a'r Gwasanaethau Atal a Lliniaru Digartrefedd wedi'u llywio gan asesiad o anghenion lleol a rhanbarthol ynghyd ag ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Mae hefyd wedi cael ei lywio gan ofynion polisïau ehangach ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol megis y symudiad i ailgartrefu cyflym a'r hyn a ddysgwyd o bandemig COVID-19.

Mae ein blaenoriaethau hefyd yn ystyried y cynnydd a wnaed drwy ein Cynllun Cyflawni'r GCT diweddaraf yn 2021/22. Mae'r Asesiad o Anghenion Iechyd a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn 2020 hefyd yn ddylanwad pwysig ar ein cynlluniau - yn benodol, ein dull partneriaeth o ehangu mynediad at wasanaethau gofal iechyd, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, sy'n flaenoriaeth uchel ar gyfer y strategaeth hon.

Mae'r gwaith o ddadansoddi'r data lleol ar ddigartrefedd, perfformiad y gwasanaethau presennol a'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid, wedi ein galluogi ni i bennu blaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth hon yn ogystal â chyfres o feysydd yr ydym yn dymuno gweithredu arnynt dros y pedair blynedd nesaf i gryfhau'r modd yr awn ati i atal a lleddfu digartrefedd.



Blaenoriaeth Strategol 1

Cryfhau'r gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan a'r cymorth arbenigol a roir i rwystro digartrefedd

Diben y Gwasanaethau Cymorth Tai yw helpu i atal digartrefedd, allgáu cymdeithasol, ynysu a sefydliadu. Mae ataliad wrth wraidd y gwasanaethau digartrefedd ym Merthyr Tudful ac mae'n hanfodol ein bod ni'n dychwelyd i 'fusnes fel arfer' gan roi'r ffocws ar atal digartrefedd a dychwelyd i, a rhagori ar, y lefelau perfformiad a fodolai cyn y pandemig.

Mae gennym hanes cryf o atal digartrefedd. Mae ein Tîm Atebion Tai mewnol yn hanfodol i atal a lliniaru digartrefedd - trwy chwilio am opsiynau llety a chefnogaeth sy'n diwallu anghenion yr unigolyn.

Nod ymyrraeth gynnar yw lleihau'r elfen o ddwysâd fel nad yw sefyllfa troi'n argyfwng sy'n effeithio ar iechyd, cynhwysiant ac annibyniaeth. Bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol er mwyn cryfhau ei ddulliau ataliol:

- **Cam Gweithredu 1** – Datblygu Gwaith Atal ac Ymyrryd yn Fuan ar Ddigartrefedd.
- **Cam Gweithredu 2** – Darparu cymorth ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau – datblygu system ehangach o gydweithio ar broblemau sy'n cyd-ddigwydd.
- **Cam Gweithredu 3** – Rhoi cefnogaeth i bobl ifanc sy'n cynnwys dulliau rhianta corfforaethol gwell mewn perthynas â'u hanghenion llety i'r dyfodol.
- **Cam Gweithredu 4** – Rhoi cefnogaeth i daclo Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.



Blaenoriaeth Strategol 2

Sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael y cartref iawn ar yr amser iawn ac yn y lle iawn, fel rhan o'n dull Ailgartrefu Cyflym

Mae helpu pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned yn hanfodol i'r Rhaglen Cymorth Tai. Mae hyn nid yn unig yn cynnwys mynediad i letyau, mae hefyd yn asesu ac yn dylanwadu ar eu cyflenwad a'u haddasrwydd. Mae angen cyflenwad tai, yn enwedig unedau ystafell wely sengl a lletyau â chymorth ychwanegol, i ddiwallu'r galw amdanynt ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn enwedig yng ngoleuni'r gystadleuaeth o fewn y farchnad rentu preifat. Bydd y Cyngor yn anelu at adeiladu ar lwyddiannau ei fodel Tai yn Gyntaf ar gyfer Ailgartrefu Cyflym gan ddefnyddio dull newydd o gefnogi pobl i ddod o hyd i lety cywir gyda'r cymorth cywir o'r cychwyn cyntaf.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- **Cam Gweithredu 5** - Darparu llety addas ar gyfer ailgartrefu cyflym ac ymateb i'r 'normal newydd'. Yn unol â chyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru, byddwn yn gweithredu ein Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym.
 - Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ar gyfer pobl sengl dros y 4 blynedd nesaf.
 - Gwella cymhellion ein cynnig i'r Sector Rhentu Preifat.
 - Gweithio'n agosach gydag Iechyd yr Amgylchedd a pherchnogion eiddo preifat i adfer y defnydd o eiddo gwag.
- **Cam Gweithredu 6** - Adolygu effaith COVID-19 ar y defnydd o letyau dros dro, yn arbennig lletyau gwely a brecwast.
- **Cam Gweithredu 7** - Cynyddu mynediad i'r Sector Rhentu Preifat.
- **Cam Gweithredu 8** - Sicrhau bod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i wella'r symudiad o letyau dros dro.
- **Cam Gweithredu 9** - Sicrhau bod ystod y lletyau'n cael ei hehangu i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol (gan gynnwys lletyau â Chymorth Cyffredinol, lletyau â Gofal Ychwanegol a lletyau â Chymorth i Bobl Ifanc).

Blaenoriaeth Strategol 3

Cryfhau Gwasanaethau Cymorth Tai ymhellach

Gwyddom fod amseroldeb ac addasrwydd y cymorth yn rhywbeth y mae ein defnyddwyr gwasanaeth yn dibynnu arnynt. Byddwn yn parhau i adnewyddu ein harlwy wrth i ni ddod yn fwy gwybodus ynghylch anghenion ein defnyddwyr, gan wneud yn siŵr fod ein trefniadau contractio â darparwyr yn cynnig cymorth sy'n sicr ac yn gyson i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Byddwn yn adeiladu ar blatfform y model presennol sy'n cefnogi pobl ag anghenion cymorth uchel, canolig ac isel trwy weithio gyda'n partneriaid i wella'r system gymorth yn ei gyfanrwydd.

- **Cam Gweithredu 10** - Llety â Chymorth a Chymorth fel y bo'r Angen – cynnig sicrwydd a chysondeb i ddarparwyr, annog hyblygrwydd ac arloesedd, lleihau gwaith gweinyddol.

Blaenoriaeth Strategol 4

Cydweithio i ddarparu cymorth cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gydag ymyriadau arbenigol effeithiol lle bo angen

- **Cam Gweithredu 11** - Gwella ymatebion aml-asiantaeth a gwaith.

Mae Atodiad A yn darparu ymrwymadau manylach o dan bob un o'r camau gweithredu a nodwyd.



**Byddwn yn adeiladu ar blatfform
y model presennol sy'n cefnogi
pobl ag anghenion cymorth
uchel, canolig ac isel.**

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae rhanddeiliaid wedi bod yn ymwneud â datblygu'r blaenoriaethau ar gyfer y strategaeth hon trwy gyfres o weithdai ar-lein, cyfweiliadau un i un a holiaduron, gan gynnwys holiadur i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Dyma'r rhanddeiliaid a gymerodd ran:

- Ystadau CBSMT
- Cynllunio CBSMT
- Tîm Digartrefedd CBSMT
- Tîm Tai Strategol CBSMT
- Tîm GCT CBSMT
- Iechyd yr Amgylchedd CBSMT
- Gofal a Thrwsio
- Cymdeithas Tai Merthyr
- Plattform
- Tai Wales and West
- Mind Cwm Taf
- Gwasanaethau Merched
- Cyngor ar Bopeth
- Hafod
- Cornerstone
- Canolfan Dysgu Cymdogaeth y Gurnos
- Pobl
- Iechyd
- Prawf

Mae adborth y rhanddeiliaid wedi'i grynhoi isod ac mae wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ein blaenoriaethau strategol ac yn rhoi cipolwg pwysig ar ddatblygiad a gweithrediad y Cynllun a baratowyd yn Atodiad A.

Gweithio i atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd

- Canmolwyd y cymorth a roir i'r digartref gan Dîm CBS Merthyr Tudful. Mae cefnogaeth yn digwydd tra bod pobl ar y rhestr aros yn edrych ar ffyrdd o reoli'u cyllideb a'u tenantiaeth. Roedd rhanddeiliaid a weithiai ar draws amryw o Awdurdodau Lleol yn teimlo bod Merthyr yn rhagori ar lawer o fwrdeistrefi cyfagos yn hyn o beth.
- Mae angen capasiti ychwanegol i ddarparu cyngor ar gyllidebau a budd-daliadau ar gyfer pobl sy'n gadael ysgol, carchar neu ysbyty.
- Teimlwyd bod gwasanaethau GCT yn brwydo'n barhaus i reoli'r annisgwyl wrth iddynt ganolbwyntio ar ymyrryd mewn argyfyngau heb gael fawr o amser i geisio'u hatal.
- Cytunwyd bod mynediad cynnar i gymorth iechyd meddwl yn ddull ataliol o bwys ond y gallid ei weithredu'n well.
- Roedd rhanddeiliaid yn awyddus i archwilio dulliau o ymgysylltu â'r gymuned a oedd yn seiliedig ar le, er mwyn dal y bobl oedd mewn angen yn gynharach.
- Byddai'n ddefnyddiol creu 'siop-un-stop' lle gall pobl gael mynediad at gymorth gan amryw o sefydliadau sy'n adlewyrchu cymhlethdodau'r problemau a gyflwynir gan unigolion.

- Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth ar-lein wedi bod o help, yn enwedig i bobl sydd am gyrchu grwpiau a chymorth cam-drin domestig yn gyfrinachol.
- Roedd y cyfnod clo yn golygu bod pobl wedi colli'u hymgysylltiad â gwasanaethau fel iechyd meddwl ac mae rhywfaint o achosion wedi'i ohirio. Mae angen i gynllun y gwasanaeth fod yn barod ar gyfer ymchwydd posibl yn nifer yr achosion nas diwallwyd ar draws y system.
- Mae rhai pobl mewn hosteli yn meddu ar anghenion iechyd meddwl sy'n uwch na lefel y cymorth y gellir ei gynnig, gan gynnwys llochesi sy'n derbyn mwy a mwy o atgyfeiriadau ar gyfer pobl â risgiau uwch – yn aml, mae hyn yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a heriau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd.
- Mae cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn heriol i'r rhai ag anghenion uchel a'r rhai nad yw eu hanghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd presennol.

Y cartref iawn ar yr amser iawn yn y lle iawn

- Nid oes digon o 'letyau symud ymlaen' ar gael sy'n golygu bod pobl yn aros mewn llety dros dro/llety â chymorth am fwy o amser nag sydd ei angen ac mae hynny'n peri iddynt ddod yn 'sefydliadol'.
- Mae Merthyr yn gymuned led-wledig glòs lle mae'n debygol iawn y bydd pobl yn adnabod y rhai sy'n cael eu symud i'r gymuned a'r heriau y maent yn eu hwynebu.
- Mae opsiynau cyfyngedig ar gael ar gyfer lletyau brys megis canolfannau dydd neu lochesi nos sy'n cynnig gwasanaeth o'r fath.

Y gefnogaeth iawn ar yr amser iawn

- Mae'r cytundebau ariannu blynyddol yn golygu diffyg sicrwydd i wasanaethau, staff a defnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn yn effeithio ar awydd staff i aros yn eu rolau presennol neu wneud cais am rolau newydd o fewn y sector.
- Mae rhoi cyfrif am bob awr o gymorth yn heriol ac yn cymryd llawer o amser. Felly, dylid ystyried dulliau eraill sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd ac yn adlewyrchu ystod lawnach o weithgareddau ond yn parhau i ganolbwyntio ar ddeilliannau.
- Roedd cyllid COVID yn galluogi rhanddeiliaid i fod yn fwy hyblyg ac arloesol yn y modd yr oeddent yn gweithio gyda chleientiaid. Dylid rhoi mwy o amser i fyfyrwyr ynghylch yr hyn a ddysgwyd o'r trefniadau COVID a diweddarau'r modelau gwasanaeth fel eu bod yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr.
- Mae gwasanaethau'n gweld mwy o bobl sydd wedi colli swyddi a chartrefi'n ddiweddar ac sydd heb ddefnyddio gwasanaethau o'r blaen. Yn gyffredinol, mae ganddynt ddyledion mawr a/neu maent yn ei chael hi'n anodd talu am danwydd a bwyd. Byddai dull mwy hyblyg o ddefnyddio GCT yn helpu sefydliadau i gynorthwyo'r bobl hyn.

Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth

Mewn cyfweiliadau â'u gweithwyr cymorth, rhoddodd 38 o ddefnyddwyr gwasanaeth adborth ynghylch eu teimladau am yr help a gawsant yn flaenorol, yr help a roddir iddynt yn awr, a'r modd y gallent gael eu helpu'n wahanol yn y dyfodol.

Cynrychiolwyd ystod o wasanaethau oedd yn cynnig lletyau â chymorth a chymorth a ddarperir fel y bo'r angen, gan gynnwys: BAWSO, Cyngor ar Bopeth, Pobl, Cymorth Tenantiaeth Llamau, Gofal a Thrwsio Cwm Taf, a'r Prosiect Tai yn Gyntaf.

Mae adborth y defnyddwyr gwasanaethau wedi'i grynhoi isod ac wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ein blaenoriaethau strategol. Mae'n rhoi cipolwg pwysig ar ddatblygiad a gweithrediad y Cynllun sydd i'w weld yn Atodiad A.

Gweithio i atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd

- Mae'n anodd cael mynediad at wasanaethau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd, heb yr eiriolaeth a'r cymorth cywir.
- Bod yn agos a chael mynediad at berthnasod normal hirdymor, iach fel teulu a ffrindiau.
- Cael mynediad i gymorth a fydd yn helpu pobl i leihau neu ddileu eu dibyniaeth ar gamddefnyddio sylweddau.
- Cael mynediad i'r wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth gywir fel y gall pobl osgoi digartrefedd yn y lle cyntaf.

Y cartref iawn ar yr amser iawn yn y lle iawn

- Pobl yn cael mynediad i lety addas, mwy parhaol pan fydd ei angen arnynt.
- Mae pobl yn rhoi pwys mawr ar sicrhau sefydlogrwydd o amgylch eu tai ac ar feithrin hyder fel rhan o'r cymorth i'w galluogi i ddod yn fwy annibynnol. Mae Adran Tai a Gwasanaethau Oedolion y Cyngor yn archwilio opsiynau i gael partner i gyflwyno a datblygu cyfleuster gofal ychwanegol arall i oedolion, gan gynnwys rhai ag anableddau, er mwyn cefnogi pobl i barhau'n annibynnol am gyfnod hwy ac atal neu ohirio eu derbyniad i ofal preswyl.

Y gefnogaeth iawn ar yr amser iawn

- Mae pobl yn gwerthfawrogi'r ystod o gymorth sydd ar gael i fynd i'r afael â materion fel budd-daliadau, llety, dyled, trais domestig, cymorth iechyd meddwl, cymorth camddefnyddio sylweddau ac offer i aros gartref.
- Mae pobl yn gwerthfawrogi cysondeb a dibynadwyedd, cefnogaeth emosiynol yn ogystal â gwybodaeth am hawliau.
- Mae angen cymorth ar bobl i eiriol drostynt ac i feithrin eu hyder.
- Mae staff cymorth yn cael eu canmol am ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth – doedd gwasanaethau eraill ddim yn seiliedig ar berthnasoedd nac yn canolbwyntio ar unigolion ychwaith.
- Amlygodd rhai bod rhwystrau iaith yn ffactor wrth weithio gydag asiantaethau eraill.



Cynrychiolwyd ystod o wasanaethau oedd yn cynnig lletyau â chymorth a ddarperir fel y bo'r angen, gan gynnwys:

BAWSO, Cyngor ar Bopeth, Pobl, Cymorth Tenantiaeth Llamau, Gofal a Thrwsio Cwm Taf, a'r Prosiect Tai yn Gyntaf.

Asesu'r Effeithiau

Rydyn ni wedi cynnal asesiad o'r effaith ar y blaenoriaethau a'r camau gweithredu a amlinellwyd yn y Strategaeth hon.

Mae ein hasesiad o'r effaith yn cwmpasu'r canlynol:



Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb



Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg



Hawliau Plant

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Nodweddion Gwarchodedig

Nododd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y bydd ein blaenoriaethau strategol yn cael effaith gadarnhaol ar bobl a chanddynt nodweddion gwarchodedig. Mae'r Awdurdod Lleol yn comisiynu gwasanaethau'n benodol ar gyfer **pobl hŷn** y mae eu hanghenion cymorth tai yn gysylltiedig â heneiddio, yn ogystal â gwasanaethau i **bobl ifanc** sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n profi digartrefedd. Yn yr un modd, mae'n comisiynu gwasanaethau i bobl ag **anableddau a/neu gyflyrau hirdymor**, i gyd â'r nod sylfaenol o gynnal tenantiaethau ac osgoi digartrefedd.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Awdurdod Lleol yn comisiynu rhai categorïau sydd wedi'u hanelu'n benodol at y nodwedd warchodedig hon megis **beichiogrwydd a mamolaeth**; fodd bynnag, mae Tîm Tai a Lletyau'r Cyngor yn darparu cymorth cyffredinol i **unrhyw unigolyn** sydd angen cyngor a chymorth tai, beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, ac nid yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac yn cysylltu â strategaethau mewnol ac allanol ar gyfer y Gymraeg. Ar hyn o bryd, nid yw'r Gwasanaeth Tai a GCT yn comisiynu gwasanaethau sydd wedi'u hanelu'n benodol at y nodwedd warchodedig hon; fodd bynnag, mae cyngor, cymorth a chefnogaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Mae gwasanaethau Tai a Chymorth Tai'r Cyngor yn mynd i'r afael ag anghenion cymorth y **plant** a'r oedolion mwyaf bregus yn y Fwrdeistref. Bydd y blaenoriaethau strategol yn cyfrannu at amcan trosfwaol y Cyngor, sef bod **pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus**. Mae'r blaenoriaethau strategol wedi'u paratoi i sicrhau bod yr holl wasanaethau wedi'u harfogi i gefnogi'r rhai sydd mewn perygl neu sydd eisoes yn profi digartrefedd.

Yn y Strategaeth hon, rydym wedi ymrwymo i gryfhau rhianta corfforaethol fel dull o fynd i'r afael yn y dyfodol ag anghenion llety i bobl ifanc â phrofiad o ofal. Mae hyn yn fodd i amddiffyn ymhellach hawliau'r plant a'r bobl ifanc yr ydym yn gyfrifol amdanynt.



Gweithredu, Monitro ac Adolygu'r Strategaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn nodi yn ei adroddiad Mynd i'r Afael â Digartrefedd, Adolygiad Tystiolaeth Gyflym 2015:

“

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod digartrefedd yn broblem gymhleth.

Yn aml, mae yna lu o resymau sy'n rhyngweithio â'i gilydd mewn ffyrdd sy'n amrywio ar lefel unigol ac yn gofyn am ymgysylltiad â nifer o feysydd polisi.

”

Mae'r rhesymau sylfaenol sy'n arwain at ddigartrefedd a/neu anghenion cymorth tai ymhlith unigolion ac aelwydydd bregus yn gwbl gydgyssylltiedig. Mae gweithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus yn dibynnu'n sylfaenol nid yn unig ar yr hyn y gall y Cyngor ei wneud, ond ar ein hymdrechion i gydgyssylltu gwasanaethau, cynllunio ar y cyd, comisiynu a darparu gwasanaethau gan adrannau mewnol yr awdurdodau lleol, partneriaid statudol, y sector tai a'r trydydd sector.

Byddwn yn monitro, yn llywio ac yn adolygu cynnydd yn erbyn Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai trwy Grŵp Cynllunio GCT Merthyr Tudful a'r Bartneriaeth Tai Strategol. Mae'r ddau grŵp hyn yn ymgynnull bob chwarter. Cadeirydd y Bartneriaeth Tai Strategol sy'n atebol yn y pen draw am gyflawni'r strategaeth a chaiff y cyfrifoldeb am ei chyflawni ei ddirprwyo i Swyddog Arweiniol y Rhaglen Cymorth Tai.

Bydd cyflawni yn erbyn y strategaeth yn eitem sefydlog ar agenda bob un o'r cyfarfodydd chwarterol hyn. Cynhelir adolygiad ffurfiol o gynnydd a gwerthusir yr effaith bob dwy flynedd o leiaf, ond gellir eu hadolygu'n amlach os bernir bod angen. Un o'r meysydd allweddol y bydd y grŵp yn canolbwyntio arno fydd gwella'r wybodaeth a gesglir am ddeilliannau ar draws yr holl feysydd a fuddsoddir gennym drwy'r Grant Cymorth Tai.

Cafodd cysylltiadau cryf eu ffurfio â grwpiau a phartneriaethau strategol ar draws Cwm Taf Morgannwg trwy'r trefniadau llywodraethu blaenorol ar gyfer Cefnogi Pobl, ac maent wedi'u cryfhau ymhellach drwy sefydlu'r Grŵp Cymorth Cydweithredol Tai Rhanbarthol, sy'n darparu fforwm allweddol ar gyfer cydweithio.

Mae gan y Grŵp Cymorth Cydweithredol Tai Rhanbarthol gynrychiolaeth eang ar draws asiantaethau. Mae cynrychiolydd o'r trydydd sector sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr, rhanddeiliaid ehangach a chomisiynwyr yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid cyfartal i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn addas i'r diben, yn gynaliadwy, yn gydnerth, ac yn gallu bodloni'r galw gan y rhai sydd angen eu cyrchu, yn awr ac yn y dyfodol.

Drwy'r mecanweithiau hyn, gallwn ni uwchgyfeirio'r heriau a ddaw yn sgil atal digartrefedd at gyrff sector cyhoeddus eraill os ydynt yn rhan o'u cyfrifoldeb. Yn benodol, gallwn ni dynnu sylw at yr asesiad manwl o anghenion iechyd ein poblogaeth ddigartref a gyflawnon ni gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ynghyd â'n buddsoddiad i wella ein hymateb i'r anghenion iechyd hynny, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Mae aelodau'r Grŵp Cymorth Cydweithredol Tai Rhanbarthol hefyd yn cysylltu â'r Rhaglen Cymorth Tai drwy gyrff eraill sydd wedi'u sefydlu, gan gefnogi'r dasg o gynllunio a chyflawni ar lefel fwy penodol neu arbenigol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Cynllunio Ardal De Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau
- Gwasanaeth Troseddau a Bwrdd Cymunedau Diogelach De Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol De-ddwyrain Cymru (VAWDASV)
- Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl

Mae cyflawni'r meysydd a nodir yn y Cynllun Gwaith Rhanbarthol hefyd yn gyfrifoldeb i'r Grŵp Cymorth Cydweithredol Tai Rhanbarthol. Bydd y datganiad rhanbarthol yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Grŵp hwn a chaiff diweddariadau rheolaidd eu darparu gan yr aelodau ymhob cyfarfod. Cadeirydd y Grŵp a'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol sy'n

gyfrifol am oruchwylio'r datganiad hwn. Bydd y gwaith sydd i'w weithredu trwy'r datganiad yn cael ei nodi mewn cynllun gwaith a oruchwylir gan y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol. Mae gweithio'n rhanbarthol yn rhoi fforwm i ni gyflawni'r pethau sy'n cael eu gwneud orau ar y lefel honno.

Gellir categoraiddio'r rhain fel:

- Datblygu gwasanaethau arbenigol lle nad oes mäs critigol ar eu cyfer yn lleol. Mae prosiectau rhanbarthol newydd (2021-2022) yn cynnwys:
 - Creu a lansio Tîm Arbenigol ar gyfer Tai, Iechyd Meddwl a Chamdddefnyddio Sylweddau i gefnogi'r rhai mwyaf bregus sy'n cysgu ar y stryd er mwyn darparu cymorth dwys i bobl sy'n profi digartrefedd, iechyd meddwl gwael a dibyniaeth ar sylweddau ar yr un pryd.
 - Datblygu Prosiect Ymchwilio/Cwmpasu i bennu'r angen am Brosiect LHDCT+ yn Rhanbarth CTM.
 - Datblygu Prosiect Ymchwilio/Cwmpasu i bennu'r angen am Brosiect Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, yn benodol ar gyfer y rhai sy'n profi arferion diwylliannol niweidiol, ochr yn ochr ag anghenion cymorth sy'n ymwneud â Thai.
 - Cais drwy Iechyd y Cyhoedd am gymorth drwy Raglen Ariannu Communities4Change Cymru i ddatblygu mecanweithiau ar gyfer rhannu, dehongli a defnyddio data a'u rhoi ar waith â'n holl bartneriaid.
- Fel mater o flaenoriaeth ar gyfer 2021/22, bwriadwn i'n Gwasanaeth Gwella Diogelwch fod yn gydnaws ag un RhCT.
- Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle bo modd eu cyfiawnhau gan arbedion maint a lle bo tystiolaeth gyffredin yn awgrymu bod eu hangen. Fel rhan o hyn ac ar lefel ranbarthol, rydyn ni'n archwilio'r posibilrwydd o gynnal Rhaglen Cyflawnwyr Trais Domestig, yn ogystal â gwasanaeth fel y bo'r angen i gynorthwyo'r rhai sy'n goroesi camdriniaeth rywiol.
- Dulliau cydweithredol o fonitro a rhannu dogfennau megis y Grŵp Swyddogion Monitro a dogfennau rhanbarthol megis 'Gweithgareddau a Ganiateir'.
- Cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill i gryfhau'r dasg o gasglu a rhannu data, megis Communities4Change Cymru, wrth edrych ar rannu data'r Prosiect Allgymorth Rhanbarthol ar gyfer Iechyd Arbenigol.

Ffynonellau Ariannu

Ochr yn ochr â chyllid craidd i'r Cyngor drwy'r Grant Cynnal Refeniw, mae'r **Grant Cymorth Tai** yn darparu elfen allweddol o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r strategaeth hon. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Dyraniad Cyllideb Ddangosol o £2,873,282.13 ar gyfer GCT ac fe'i pennir dros y 3 blynedd ariannol nesaf sef 2022/23 hyd 2024/25.

Mae'r Dyraniad Dangosol 3 blynedd i'w groesawu'n fawr am ei fod yn caniatáu inni fireinio ein cynlluniau strategol a'n cynorthwyo i wella a darparu gwasanaethau newydd i gwrdd â'r galw cynyddol am wasanaethau GCT yn y Fwrdeistref. Bydd hefyd yn rhoi'r cyfle inni ystyried y gofynion a'r anghenion a gododd yn sgil pandemig COVID-19 a'n galluogi i barhau â'r dasg o drawsnewid gwasanaethau i ddiwallu anghenion dinasyddion Merthyr, gan ymgorffori ffyrdd newydd a gwahanol o weithio.

Mae gan y Cyngor raglen ddatblygu tair blynedd ar waith ac fe'i hariennir gan Raglen Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddyraniad Cyllideb Ddangosol o £4,386,945, a bennir dros y 3 blynedd ariannol nesaf. Mae'r Cyngor ar y trywydd iawn i ddarparu mwy na 150 o unedau tai fforddiadwy dros y tair blynedd nesaf, gyda 104 ohonynt yn lletyau ag un ystafell wely. Yn ogystal, disgwyliwn ddechrau datblygiadau tua diwedd 2022-23 ac yn ystod 2023-24, gan ddarparu 100+ o unedau tai fforddiadwy pellach a fydd yn barod i'w meddiannu ar ôl 2023-24.

Ar ddechrau pandemig y coronafeirws, wrth i'r rheoliadau ar gyfer aros gartref ddod i rym yng Nghymru, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol £10m o gyllid 'Cam 2'

i sicrhau nad oedd neb yn cael ei adael heb fynediad at lety. Mewn partneriaethau ar wahân â Chartrefi Cymoedd Merthyr a landlord preifat lleol, llwyddodd y Cyngor i sicrhau fymryn llai na £1 miliwn ar gyfer 9 uned letyol ag 1 ystafell wely yr un.

O ganlyniad i'r cyhoeddiad, cynigiodd y Tîm Opsiynau Tai letyau brys i aelwydydd a oedd wedi cysylltu â nhw oherwydd eu profiad o gysgu allan, ond a oedd ar y pryd ddim yn meddu ar unrhyw 'ddyletswydd ddigartrefedd' nac ar unrhyw reswm i gredu bod eu hanghenion yn flaenoriaeth.

Cyhoeddwyd £20m o gyllid ychwanegol yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn i Awdurdodau Lleol gynllunio i sicrhau nad oes angen i neb ddychwelyd i'r stryd. Byddant yn canolbwyntio ar arloesi, adeiladu ac ailfodelu i drawsnewid y lletyau a gynigir ar hyd a lled Cymru. Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r gronfa galedi hon a bydd yn parhau i wneud hynny er mwyn darparu lletyau dros dro a sicrhau nad oes neb yn cael ei adael allan.

Mae ffyrdiau ariannu eraill megis y **Grant Plant a Chymunedau** yn cael ei ddefnyddio i hwyluso'r gefnogaeth gywir ar gyfer grwpiau targed ac i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Byddwn yn parhau â'n gwaith cydweithredol gyda'n partneriaid i chwilio am gyfleoedd i gomisiynu ar y cyd ac i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd hynny, yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, ein Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a gwaith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ynghyd â'r asiantaethau yr ydym yn gweithio'n agos â nhw fel rhan o Grŵp Cynllunio GCT Merthyr Tudful.

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Blaenoriaeth Strategol 1

Cryfhau’r gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan a’r cymorth arbenigol a roir i rwystro digartrefedd

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni’r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 1 Datblygu Gwaith Atal ac Ymyrryd yn Fuan ar Ddigartrefedd	Datblygu rôl Atal ac Ymyrryd yn Fuan. Gweithdai sylfaenol ag ysgolion a cholegau i baratoi PPI ar gyfer tenantiaethau’r dyfodol.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Atebion Tai	Mae’r ystod o wasanaethau atal a gomisiynir yn diwallu anghenion dinasyddion Merthyr Tudful ac yn eu hatal rhag gorfod cyrchu gwasanaethau statudol
	Archwilio’r potensial ar gyfer Hyb Cyngor Tai unigryw, o bosibl mewn lleoliad Llety â Chymorth newydd.	31 Mawrth 2024	Rheolwr Tai Strategol a Rheolwr Gwasanaethau Tai Gweithredol	Gostyngiad mewn digartrefedd ymhlith yr ifanc trwy ddatblygu pecynnau addysg a mwy o wybodaeth iddynt am dai a digartrefedd
	Gwella’r dasg o farchnata/ hyrwyddo cymorth Atal ac Ymyrryd yn Fuan. Gwneud hyn yn fwy gweladwy a hygyrch.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Atebion Tai	
	Archwilio cyfleoedd ar gyfer siop-un-stop yng Nghanol y Dref i dargedu cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar.	1 Mehefin 2022	Rheolwr Tai Strategol a Rheolwr Gwasanaethau Tai Gweithredol	Mwy o ymwybyddiaeth amlwg ymhlith yr ifanc o’r ffactorau sy’n cyfrannu at broblemau tai a digartrefedd, gydag ymwybyddiaeth o’u hawliau a’u cyfrifoldebau
	Datblygu perthnasoedd gyda grwpiau cymunedol sefydledig a darparu sesiynau galw heibio rheolaidd i gynnig AEI.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Atebion Tai	

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Cryfhau'r gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan a'r cymorth arbenigol a roir i rwystro digartrefedd

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 1 Datblygu Gwaith Atal ac Ymyrryd yn Fuan ar Ddigartrefedd	Archwilio ymhellach, ac os oes angen, cryfhau ein dyletswyddau rhianta corfforaethol mewn perthynas ag anghenion y dyfodol o ran darparu llety i blant a phobl ifanc sydd wedi 'profi gofal', mewn ymateb i lythyr diweddar gan Lywodraeth Cymru at holl ALLau Cymru.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Atebion Tai	Mae'r ystod o wasanaethau atal a gomisiynir yn diwallu anghenion dinasyddion Merthyr Tudful ac yn eu hatal rhag gorfod cyrchu gwasanaethau statudol
	Parhau i ddarparu Cyrsiau Paratoi Tenantiaeth i gefnogi cynaliadwyedd tenantiaeth.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Atebion Tai ac Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	Gostyngiad mewn digartrefedd ymhlith yr ifanc trwy ddatblygu pecynnau addysg a mwy o wybodaeth iddynt am dai a digartrefedd Mwy o ymwybyddiaeth amlwg ymhlith yr ifanc o'r ffactorau sy'n cyfrannu at broblemau tai a digartrefedd, gydag ymwybyddiaeth o'u hawliau a'u cyfrifoldebau

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael y cartref iawn ar yr amser iawn ac yn y lle iawn, fel rhan o'n dull Ailgartrefu Cyflym

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 2 Darparu cymorth ar gyfer ieched meddwl a chamddefnyddio sylweddau – datblygu system ehangach o gydweithio ar broblemau sy'n cyd-ddigwydd.	Parhau i ddatblygu ac ehangu'r Tîm Allgymorth Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau Arbenigol. Yn debygol o ymestyn y rhaglen ymhellach wrth iddi ddatblygu (ar hyn o bryd, mae'n gyfyngedig i hosteli a lletyau dros dro).	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	Mwy o weithio mewn partneriaeth a gwell mynediad at wasanaethau cymorth tai ac atal digartrefedd trwy feithrin cydberthnasau â'r gwasanaethau ieched, y gwasanaeth prawf, y gwasanaethau cymdeithasol a LLC, gan adolygu a datblygu arferion a phrosesau gwaith ar y cyd ag asiantaethau partner allweddol. Bydd y deilliannau'n dangos llai o fethiannau o ran tenantiaeth neu achosion o droi allan o dai cymdeithasol neu letyau â chymorth/hosteli, yn ogystal â llai o ddigartrefedd a llai o risg yn y gymuned
	Parhau i gomisiynu gwasanaethau ychwanegol yn ôl yr angen.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Atebion Tai	
	Gweithio gydag arweinwyr BIPCTM ar ieched meddwl a chamddefnyddio sylweddau i fwrw ymlaen â holl argymhellion yr Adolygiad Digartrefedd diweddar ar gyfer heriau ieched meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd.	31 Mawrth 2026	Rheolwr Gwasanaethau Tai Gweithredol ac Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Sicrhau bod pobl sy’n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael y cartref iawn ar yr amser iawn ac yn y lle iawn, fel rhan o’n dull Ailgartrefu Cyflym

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 3 Rhoi cefnogaeth i bobl ifanc sy’n cynnwys dulliau rhianta corfforaethol gwell mewn perthynas â’u hanghenion llety i’r dyfodol.	Adnewyddu’r Ganolfan Dysgu yn y Gymdogaeth i gynyddu unedau llety ar gyfer pobl ifanc.	30 Medi 2023	Rheolwr Tai Strategol a Rheolwr Gwasanaethau Tai Gweithredol	Ymateb cyflym i ddigwyddiadau neu risgiau unigol o ddigartrefedd ymhlith yr ifanc
	Parhau i ddarparu Tai yn Gyntaf ar gyfer Prosiect Ieuenctid yn Hillfort Court.	31 Mawrth 2026	Rheolwr Gwasanaethau Tai Gweithredol ac Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	Gostyngiad yn nifer yr achosion o ddigartrefedd ymhlith yr ifanc
	Parhau i gomisiynu llety â chymorth i bobl ifanc yng Nghwrt Garth Newydd.	31 Mawrth 2026	Rheolwr Gwasanaethau Tai Gweithredol ac Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	
	Parhau i ddarparu Cymorth cyffredinol fel y Bo’r Angen i Bobl Ifanc a diwallu gofynion yr ardal leol.	31 Mawrth 2026	Rheolwr Gwasanaethau Tai Gweithredol ac Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	
	Datblygu cysylltiadau gyda Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid CCM i ymgorffori gwell arferion wrth gydweithio i gefnogi pobl ifanc.	31 Mawrth 2024	Arweinydd Tîm Atebion Tai	

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Blaenoriaeth Strategol 1

Sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael y cartref iawn ar yr amser iawn ac yn y lle iawn, fel rhan o'n dull Ailgartrefu Cyflym

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 4 Rhoi cefnogaeth i daclo Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	Parhau i gomisiynu gwasanaeth cymorth fel y bo'r angen i ddioddefwyr cam-drin domestig.	31 Mawrth 2026	Rheolwr Gwasanaethau Tai Gweithredol ac Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	Mae gwasanaethau'n fwy ymatebol i anghenion amrywiol pobl sy'n profi Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
	Sicrhau bod gwasanaethau sydd newydd eu comisiynu yn gymwys i ymdrin â heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd.	31 Mawrth 2026	Rheolwr Gwasanaethau Tai Gweithredol ac Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	
	Sicrhau bod comisiynu yn ystyried anghenion y gymuned LHDTG+.	1 Ebrill 2022	Rheolwr Gwasanaethau Tai Gweithredol ac Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	
	Cynyddu nifer y llochesi i fenywod – 1-2 uned wasgaredig ychwanegol.	31 Mawrth 2023	Rheolwr Gwasanaethau Tai Gweithredol, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai, Rheolwr Tai Strategol	

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael y cartref iawn ar yr amser iawn ac yn y lle iawn, fel rhan o'n dull Ailgartrefu Cyflym

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 4 Rhoi cefnogaeth i daclo Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	Cynnal trafodaethau rhanbarthol ar wasanaethau a hyfforddiant i dramgwyddwyr gyda'r nod o ddatblygu Rhaglen CTM newydd i'r rhai sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig.	1 Ebrill 2022	Rheolwr Gwasanaethau Tai Gweithredol, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	Mae gwasanaethau'n fwy ymatebol i anghenion amrywiol pobl sy'n profi Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
	Cwblhau prosiect ymchwil ar anghenion cymorth tai i ferched sy'n profi arferion diwylliannol niweidiol, e.e. mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gyda'r nod o ddatblygu prosiect cymorth rhanbarthol ar sail argymhellion yr adroddiad.	30 Medi 2022	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	
	Ariannu cynllun i wella diogelwch fel y gall pobl aros yn eu cartrefi.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Blaenoriaeth Strategol 2

Sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael y cartref iawn ar yr amser iawn ac yn y lle iawn, fel rhan o'n dull Ailgartrefu Cyflym

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 5 Darparu llety addas ar gyfer ailgartrefu cyflym ac ymateb i'r 'normal newydd'	Defnyddio canllawiau polisi LIC i gynnal adolygiad o'r modd y gweithredir Ailgartrefu Cyflym.	31 Mawrth 2026	Rheolwr Tai Strategol a Swyddog Datblygu Strategol	Twf yng nghyflenwad lletyau yn y sector rhentu sy'n fforddiadwy ac o ansawdd da, gan gynyddu'r opsiynau tai ar gyfer aelwydydd sy'n wynebu digartrefedd
	Datblygu perthnasoedd proffesiynol gyda landlordiaid preifat i gynyddu cyfleoedd tenantiaeth yn y SRhP.	31 Mawrth 2024	Arweinydd Tîm Atebion Tai	
	Gweithio gyda'r SRhP i ennyn diddordeb yng Nghynllun Prydlesu SRhP LIC er mwyn cloriannu a yw'r ALL am weithredu'r cynllun.	31 Mawrth 2022	Arweinydd Tîm Atebion Tai	
	Adolygu'r Polisi Dyrannu presennol. Cytuno a gweithredu newidiadau polisi gyda phartneriaid LCC i gefnogi'r trosglwyddiad i fodel Ailgartrefu Cyflym.	1 Medi 2022	Arweinydd Tîm Atebion Tai/ Swyddog Tai Strategol/ Rheolwr Tai Gweithredol	

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael y cartref iawn ar yr amser iawn ac yn y lle iawn, fel rhan o'n dull Ailgartrefu Cyflym

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 6 Adolygu effaith COVID-19 ar y defnydd o letyau dros dro, yn arbennig lletyau gwely a brecwast	Adolygiad parhaus o ddefnydd lletyau dros dro.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Atebion Tai	Cynllun i leihau'r defnydd o Letyau Gwely a Brecwast a Lletyau Dros Dro anaddas
	Parhau i fapio anghenion cymorth y rhai mewn Llety Gwely a Brecwast/Llety â Chymorth er mwyn cynllunio 'opsiynau symud ymlaen' sy'n barhaol ac yn briodol.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Atebion Tai	
	Cynyddu nifer y Lletyau â Chymorth i leihau'r defnydd o Letyau Gwely a Brecwast, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ag anghenion cymhleth lluosog – gyda disgwyliadau hyblyg o ran symud ymlaen.	31 Mawrth 2024	Swyddog Tai Strategol Rheolwr Tai Gweithredol	
	Lleihau nifer y bobl mewn Lletyau Gwely a Brecwast.	31 Mawrth 2023	Arweinydd Tîm Atebion Tai	

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Blaenoriaeth Strategol 2

Sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael y cartref iawn ar yr amser iawn ac yn y lle iawn, fel rhan o'n dull Ailgartrefu Cyflym

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 7 Cynyddu mynediad i'r Sector Rhentu Preifat	Ailsefydlu'r Fforwm Landlordiaid i hwyluso perthynas waith agosach â'r landlordiaid preifat a'r asiantaethau gosod tai lleol.	31 Mawrth 2022	Arweinydd Tîm Atebion Tai	Cynnydd yn nifer yr aelwydydd digartref sydd wedi atal neu leddfu'u digartrefedd trwy rentu fel tenantiaid yn y sector preifat
	Ymchwilio i weld a oes mwy o awydd i drosi eiddo 3 llofft yn fflatiau 1 llofft – ar ddelw 29 Stryd Trevethick.	31 Mawrth 2022	Arweinydd Tîm Atebion Tai	
	Hyfforddiant ar Baratoi Tenantiaeth er mwyn i ddarpar denantiaid gael y siawns orau i gynnal eu tenantiaethau.	31 Mawrth 2022	Arweinydd Tîm Atebion Tai	
	Trafodaethau ag lechyd yr Amgylchedd i ddefnyddio eiddo gwag ar gyfer tai cymdeithasol, naill ai drwy SRhP neu LCC.	31 Mawrth 2022	Rheolwr Tai Strategol	
	Gofyn am gyllid cyfalaf craidd yr ALI i ddarparu Cynllun Cymell SRhP yn lle Cynllun Prydlesu LIC.	31 Mawrth 2022	Pennaeth Tai ac Adfywio	

Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai (RhCT) 2022-26

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 8 Sicrhau bod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i wella'r symudiad o lety dros dro	Sicrhau bod datblygiadau newydd yn bodloni'r angen am dai a aseswyd.	31 Mawrth 2022	Swyddog Tai Strategol/ Rheolwr Tai Strategol	Cyflenwad cynyddol o letyau fforddiadwy ar gyfer anghenion cyffredinol i'w gosod trwy 'Byw Merthyr Tudful' a'n Polisi Dyrannu Cyffredin
	Sefydlu 'prif raglen' a 'rhaglen wrth gefn' ar gyfer datblygiad iach er mwyn osgoi tanwariant ar y Grant Tai Cymdeithasol a chwrdd â'r angen am dai.	31 Mawrth 2023	Swyddog Tai Strategol/ Rheolwr Tai Strategol	Bydd nifer yr unedau tai fforddiadwy a gwblheir gan ein LCC partner yn dangos cynnydd blynyddol am oes y Strategaeth hon, gyda 35% o'r holl ddatblygiadau canolig-mawr yn cynnig lletyau ag 1 ystafell wely
	Sicrhau bod trefniadau Adran 106 ar gyfer datblygwyr preifat fel y'u hamlinellir yn y CDLI yn cyfrannu at nodau'r Strategaeth hon.	31 Mawrth 2023	Swyddog Tai Strategol/ Rheolwr Tai Strategol	
Cam Gweithredu 9 Sicrhau bod ystod y lletyau'n cael ei ehangu i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol (gan gynnwys Lletyau â Chymorth Cyffredinol, Lletyau â Gofal Ychwanegol a Lletyau â Chymorth i Bobl Ifanc)	Sicrhau bod mynediad amserol at addasiadau, technoleg gynorthwyl, cyngor a chymorth targededig – er mwyn helpu i gadw pobl gartref ac yn annibynnol cyhyd â phosibl.	31 Mawrth 2026	Swyddog Tai Strategol/ Rheolwr Tai Strategol	Cynnydd yn nifer yr opsiynau tai hyblyg ar gyfer grwpiau targed
	Sicrhau bod rhaglen ddatblygu'r dyfodol yn ystyried pecyn cymorth Housing LIN ar gyfer rhagamcanu anghenion tai pobl hŷn Merthyr.	31 Mawrth 2024	Swyddog Tai Strategol/ Rheolwr Tai Strategol	

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Cryfhau Gwasanaethau Cymorth Tai ymhellach

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 10 Llety â Chymorth a Chymorth fel y bo'r Angen – cynnig sicrwydd a chysondeb i ddarparwyr, annog hyblygrwydd ac arloesedd, lleihau gwaith gweinyddol	Darparu ymrwymiad ariannu tymor hwy, yn unol â dyraniad cyllid LIC am 3 blynedd ar gyfer GCT er mwyn cynllunio a chadw staff yn well.	31 Mawrth 2024	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai a Rheolwr Tai Gweithredol	Lleihad clir mewn biwrocratiaeth ddiangen a thasgau nad ydynt yn ymwneud â chymorth gan ddarparwyr
	Trafodaethau â phartneriaid i wneud y dasg o reoli contractau'n gydnaws ag ALLau cyfagos i leihau rhagor o faich gweinyddol lle bo modd.	31 Mawrth 2022	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai a Rheolwr Tai Gweithredol	Darperir cymorth mewn amrywiaeth o ffyrdd a dulliau (e.e. wyneb yn wyneb, rhithwir ac o bell), gan sicrhau bod cymorth yn fwy hygyrch, deniadol ac amserol, a chan ddiwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau
	Hosteli/Lletyau â Chymorth yn cael blaenoriaeth ar gyfer symud ymlaen o Lletyau Dros Dro lle bo'n briodol - gweithredu polisi cam-i-fyny/cam-i-lawr i gefnogi cynaliadwyedd tenantiaeth.	31 Mawrth 2022	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai a Rheolwr Tai Gweithredol	Gall staff a phobl yn y gymuned ymgysylltu'n ddigidol a diwallu'u hanghenion drwy'r dulliau hyn
	Parhau â chyfarfodydd Cydgysylltu Celloedd rheolaidd i drafod materion sy'n dod i'r amlwg a strategaethau ar gyfer symud ymlaen.	31 Mawrth 2022	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai a Rheolwr Tai Gweithredol	

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Cryfhau Gwasanaethau Cymorth Tai ymhellach

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 10 Llety â Chymorth a Chymorth fel y bo'r Angen – cynnig sicrwydd a chysondeb i ddarparwyr, annog hyblygrwydd ac arloesedd, lleihau gwaith gweinyddol	Darparu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer yr holl staff a ariennir gan GCT; ymwybyddiaeth o hunanladdiad, hyfforddiant iechyd meddwl, hyfforddiant deddfwriaeth tai – a ddarperir gan MIND a Shelter Cymru.	31 Mawrth 2022	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai a Rheolwr Tai Gweithredol	Lleihad clir mewn biwrocratiaeth ddiangen a thasgau nad ydynt yn ymwneud â chymorth gan ddarparwyr Darperir cymorth mewn amrywiaeth o ffyrdd a dulliau (e.e. wyneb yn wyneb, rhithwir ac o bell), gan sicrhau bod cymorth yn fwy hygyrch, deniadol ac amserol, a chan ddiwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau
	Datblygu sgiliau cynhwysiant digidol ar draws gwasanaethau yn ogystal â'r bobl yr ydym yn eu cefnogi – gan gysylltu â Chymunedau Digidol Cymru.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai a Rheolwr Tai Gweithredol	Gall staff a phobl yn y gymuned ymgysylltu'n ddigidol a diwallu'u hanghenion drwy'r dulliau hyn
	Adolygu'r modd yr ydym wedi croesawu technoleg a darparu gwasanaethau yn wahanol yn ystod pandemig COVID-19.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai a Rheolwr Tai Gweithredol	
	Dysgu o'n ffyrdd newydd o weithio trwy foderneiddio'r modd y byddwn yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol fel eu bod yn fwy hygyrch, ymatebol a chynhwysol.	31 Mawrth 2026		

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Cydweithio i ddarparu cymorth cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gydag ymyriadau arbenigol effeithiol lle bo angen

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 11 Gwella ymatebion aml-asiantaeth a gwaith system	Sicrhau bod y Bartneriaeth Tai Strategol yn llywio ac yn darparu trosolwg aml-asiantaeth ar gyfer Strategaeth RhCT a'i chymau gweithredu, gan sicrhau bod mecanwaith monitro yn ei le a bod cysylltiadau'n cael eu cynnal â grwpiau a fforymau strategol allweddol.	31 Mawrth 2026	Swyddog Tai Strategol/ Rheolwr Tai Strategol	Darparu lletyau amrywiol i gwrdd â'r ystod o anghenion a ddaw i'r fei, a chynyddu nifer yr unedau fforddiadwy. Parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd i annog pob asiantaeth i gefnogi materion sy'n effeithio ar, ac yr effeithir arnynt gan, ddigartrefedd.
	Sefydlu a chynnal is-grwpiau o'r Bartneriaeth Tai Strategol i barhau i archwilio'r holl gyfleoedd ar gyfer creu cynifer â phosibl o unedau tai fforddiadwy a diwallu'r anghenion lleol.	31 Mawrth 2022	Rheolwr Tai Gweithredol	Mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth i sicrhau bod gwasanaethau cymorth tai effeithiol ac arloesol yn cael eu comisiynu a'u darparu.
	Parhau â chyfarfodydd partneriaeth megis Cyfarfodydd Cydgysylltu Celloedd i sicrhau ymatebion amlasiantaethol effeithlon i'r problemau amlochrog a wynebir.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	Dull arloesol aml-asiantaeth newydd o gynllunio a chomisiynu ar waith.

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Cydweithio i ddarparu cymorth cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gydag ymyriadau arbenigol effeithiol lle bo angen

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 11 Gwellu ymatebion aml-asiantaeth a gwaith system	Grŵp Cydweithredol Grant Cymorth Tai Rhanbarthol i gefnogi a hwyluso cydweithio rhanbarthol.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai	Darparu lletyau amrywiol i gwrdd â'r ystod o anghenion a ddaw i'r fei, a chynyddu nifer yr unedau fforddiadwy.
	Parhau â Fforymau Darparwyr GCT i rannu arferion gorau ar draws yr holl aml-asiantaethau ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf am bolisiâu a gweithdrefnau GCT/Tai.	31 Mawrth 2026	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth Tai ac Arweinydd Tîm Atebion Tai	Parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd i annog pob asiantaeth i gefnogi materion sy'n effeithio ar, ac yr effeithir arnynt gan, ddigartrefedd.
	Datblygu hyfforddiant, diweddariadau a briffiau i staff a darparwyr er mwyn iddynt gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r gwasanaeth, arferion da, arloesedd ac arferion newydd, trwy gynnal sesiynau hyfforddi ar y cyd, Grŵp Cynllunio GCT, a fforymau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.	31 Mawrth 2026	Swyddog Tai Strategol/ Rheolwr Tai Strategol	Mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth i sicrhau bod gwasanaethau cymorth tai effeithiol ac arloesol yn cael eu comisiynu a'u darparu.
	Canfod trefniadau ariannu ar y cyd â phartneriaid ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau sydd angen mewnbwn gan y GIG, Gofal Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Prawf.	31 Mawrth 2026	Swyddog Tai Strategol/ Rheolwr Tai Strategol	Dull arloesol aml-asiantaeth newydd o gynllunio a chomisiynu ar waith.

Atodiad B: Tirwedd y Polisiâu Cenedlaethol

Wrth iddi esblygu, mae tirwedd y polisiâu ar ddigartrefedd wedi cynnwys:

- Cyhoeddiad yn 2016 o 'Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth' – yn ei hanfod, llwybr i bobl ifanc ar eu taith tuag at annibyniaeth a llwyddiant economaidd trwy gyngor ar dai, opsiynau ac atal digartrefedd.
- Cyflwyniad yn 2016 o'r canllawiau 'Pan Fydda i'n Barod' o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (gweler isod), a oedd yn galluogi pobl ifanc mewn gofal maeth i aros gyda'u gofawyr y tu hwnt i 18 oed.
- Cyhoeddiad yn 2016 gan Barnardos o'r 'Fframwaith Llety a Chymorth i Adawyr Gofal' gyda'r nod o gynllunio a darparu tai a chymorth effeithiol i bobl ifanc ac ymadawyr gofal.
- Cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru ar ddulliau adferol 'Tai yn Gyntaf' gyda'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd trwy ganolbwyntio ar symud pobl ddigartref yn gyflym i dai annibynnol a pharhaol ac yna darparu cymorth a gwasanaethau ychwanegol iddynt yn ôl yr angen.
- Mewn ymateb i bandemig Covid-19 ar leihau digartrefedd ar y strydoedd, rhoddir pwyslais o'r newydd ar ddarparu lletyau dros dro, gan arwain at Lywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau cynllunio Cam 2 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid gynllunio i sicrhau bod pawb mewn llety dros dro yn cael cefnogaeth i feddu ar lety hirdymor. Mae'r pwyslais yn parhau ar atal digartrefedd a'i gadw fel peth prin a byrloedlog sydd ddim yn ailddigwydd.
- Mae canllawiau cynllunio Cam 3 (2020) yn cefnogi'r ymdrech i ddylunio a datblygu gwasanaethau cydnerth a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- Cyfres o ymgyrchoedd ffocysedig gan gynnwys Ymgyrch Dileu Digartrefedd leuenctid Cymru 2018, sy'n canolbwyntio ar anghenion y gymuned LHDT+, yn cefnogi'r rhai â phroblemau iechyd meddwl, ac yn lleihau'r cysylltiadau rhwng digartrefedd, ymddieithrio rhag addysg, a'r system ofal.
- Buddsoddiad ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth Cymru, yn arbennig £10m yn 2019-20, i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith yr ifanc trwy wella'r ddarpariaeth bresennol a datblygu gwasanaethau newydd; a lansio Cronfa Arloesi gwerth £4.8m yn 2019-20 i gefnogi 26 o brosiectau ledled Cymru i ymdrin â chymorth tai trwy ddulliau newydd ac arloesol.
- Adroddiad i Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn 2020 sy'n cynnig persbectif cyfannol ar bolisiau i roi diwedd ar ddigartrefedd, ac ymateb y Llywodraeth ar ffurf dogfen ymgynghori sy'n dwyn y teitl **'Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel: 2021-2026'**, sy'n adeiladu ar ganllawiau cynllunio Cam 2.
- Gofyniad i Awdurdodau Lleol gwblhau **Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym** erbyn diwedd Medi 2022.

- Dyma rai ymrwymiadau strategol penodol a gynhwyswyd o fewn **Rhaglen Lywodraethu Llafur Cymru (2021)**:

- diwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym;
- adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu dros y cyfnod 2021 i 2026;
- cefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol;
- datblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol i deuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref;
- sicrhau bod landlordiaid Rhentu Doeth Cymru yn ymateb yn gyflym i gwynion am hiliaeth a throseddau casineb ac yn cynnig cymorth priodol.

Dyma rai ymrwymiadau pellach a nodwyd o fewn Cytundeb Cydweithredu Llafur/Plaid Cymru (Tachwedd 2021):

- Gweithredu ar unwaith ac yn radical i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn ail gartrefi a thai anfforddiadwy, gan ddefnyddio'r system gynllunio, y system eiddo a'r system drethu.
- Sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy.
- Cyhoeddi Papur Gwyn a fydd yn cynnwys cynigion ar gyfer hawl i gartref digonol, y rôl y gallai system rhenti teg (rheoli rhenti) ei chwarae o ran gwneud y farchnad rhentu preifat yn fforddiadwy i bobl leol ar incwm lleol, a dulliau newydd i wneud cartrefi'n fforddiadwy.
- Rhoi diwedd ar ddigartrefedd trwy ddiwygio cyfraith tai, gan ddefnyddio'r Ddeddf Rhentu Cartrefi i roi mwy o sicrwydd i rentwyr, a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Adran Tai a GCT
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Canolfan Ddinesig
Stryd Y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

Ebost: housing@merthyr.gov.uk
Ffôn: 01685 725000